# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgor 5 (Hybrid)**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Rhagfyr 2022

Amser: 11.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod (11:00-11:30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(11:30)

## 2 Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol - sesiwn dystiolaeth pedwar

(11:30-12:30) (Tudalennau 1 - 60)

Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Karin Phillips, Dirprwy Gyfarwyddwr Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru

James Searle, Pennaeth y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 4, 8 a 9 y cyfarfod

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol: trafod y materion o bwys

(12:30-13:00)

**EGWYL (13:00-13:45)**

## 5 Gwaith craffu blynyddol ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

(13:45 - 14:45) (Tudalennau 61 - 70)

Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Jacob Ellis, Arweinydd Ysgogi Newid: Materion Cyhoeddus a Rhyngwladol

Heledd Morgan, Prif Wneuthurwr Newid

**EGWYL (14:45-15:00)**

## 6 Gwaith craffu blynyddol ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

(15:00 - 15:45)

Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Jacob Ellis, Arweinydd Ysgogi Newid: Materion Cyhoeddus a Rhyngwladol

Heledd Morgan, Prif Wneuthurwr Newid

## 7 Papurau i'w nodi

(15:45)

**7.1 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar drais ar sail rhywedd ac anghenion menywod mudol**

(Tudalennau 71 - 84)

**7.2 Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Tlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd**

(Tudalennau 85 - 89)

**7.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghylch Ymchwiliad i Benodiadau Cyhoeddus**

(Tudalennau 90 - 91)

## 8 Gwaith craffu blynyddol ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: trafod y dystiolaeth

(15:45- 16:05)

## 9 Blaenraglen waith

(16:05-16:20)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd – profiadau menywod ar draws y system cyfiawnder troseddol – cyflwyniad Llywodraeth Cymru

Mae profiadau menywod o'r system gyfiawnder yn bwnc hollbwysig, ac rydym yn croesawu'r ymchwiliad hwn. Credwn y dylai pob menyw a merch yng Nghymru gael mynediad at y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i ffynnu, ac rydym wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi menywod yn y system gyfiawnder yn ogystal â sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn a allwn i helpu menywod i osgoi cyswllt â'r system gyfiawnder lle bynnag y bo modd.

Mae prif gorff yr ymateb hwn yn tynnu sylw at sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd o dan y Glasbrint Cyfiawnder Menywod sy'n eiddo i bawb. Mae'r ymateb yn nodi sut rydym yn cyflawni gwaith integredig ar draws y system i wella canlyniadau i fenywod a merched yng Nghymru.

Ochr yn ochr â'r farn gyfunol hon am ein gwaith presennol gyda phartneriaid, rydym hefyd eisiau nodi ein dyheadau tymor hwy ar gyfer cyfiawnder menywod yng Nghymru. Mae hyn yn rhan o'n gweledigaeth gyffredinol i gael system gyfiawnder ataliol sy'n seiliedig ar drawma yng Nghymru.

Ym mis Mai 2022, fe wnaethom gyhoeddi Sicrhau Cyfiawnder i Gymru. Ynddo, rydym yn nodi ein hymrwymiad i fynd ar drywydd datganoli cyfiawnder a phlismona, a'r hyn a gredwn yw 'elfennau craidd' system gyfiawnder ddatganoledig. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar atal a gweithio i leihau maint y boblogaeth yn y carchardai.

Gellir gwireddu rhai o'r gwerthoedd hyn yn y gwaith partneriaeth parhaus a amlinellir yn yr ymateb hwn. Fodd bynnag, mae'r cydweithio hwn yn cael ei wneud yn fwy cymhleth yn y bôn gan y 'ffin amrwd', yn enwedig lle mae hyn yn golygu bod angen i ddwy lywodraeth gytuno ar wahanol fandadau ar gyfer gwahanol ardaloedd daearyddol.

Rydym yn ceisio peidio â gadael i hyn sefyll yn ein ffordd, ac mae sawl ymrwymiad yn ein rhaglen waith cyfiawnder a fydd yn gwella canlyniadau i fenywod Cymru yn y system gyfiawnder. Fodd bynnag, heb ddatganoli, ni fydd polisi cyfiawnder byth yn cyd-fynd yn llwyr â phrosesau gweithredol y gwasanaethau datganoledig sy'n allweddol i leihau'r pwysau ar y system gyfiawnder. Bydd polisïau ar gyfiawnder yn parhau i gael eu datblygu gan weinidogion sy'n canolbwyntio'n bennaf ar Loegr, ac er bod uchelgeisiau'r Glasbrint Cyfiawnder Menywod yn cyfrannu rhywfaint at liniaru hyn, mae risgiau parhaus o hyd y bydd newidiadau i brosesu gweithredu'r system gyfiawnder yn cael eu rhoi ar waith sy'n tanseilio ei heffeithiolrwydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod er budd cyfiawnder, penderfyniadau da a chymunedau wedi'u grymuso, fod penderfyniadau yn cael eu gwneud gan lunwyr polisïau yng Nghymru, gan ystyried safbwyntiau a buddiannau trigolion a chymunedau Cymru. Bydd hyn yn dda i fenywod yng Nghymru sydd yn y system gyfiawnder neu sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r system, ac i'w teuluoedd a'u cymunedau.

Mae gan wasanaethau datganoledig fel tai, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, a chyflogadwyedd ran bwysig iawn i'w chwarae i helpu'r menywod hyn i ffynnu a byw bywydau di-drosedd. Dyma'r gwasanaethau hefyd a fydd yn ein helpu i leihau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a thorri'r cylch o droseddu sy'n mynd o un i genhedlaeth i'r llall.

O dan y system bresennol, mae'r system gyfiawnder a'r gwasanaethau hanfodol bwysig hyn i fenywod yng Nghymru wedi'u rhannu dros ddwy lywodraeth ar wahân a dau fandad ar wahân. Er gwaethaf ein gwaith partneriaeth effeithiol ar hyn o bryd, dim ond datganoli cyfiawnder fydd yn caniatáu i ni fabwysiadu dull cwbl integredig o gefnogi menywod a merched yng Nghymru.

Mae'n bwysig bod ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol cyfiawnder yng Nghymru yn cael ei llunio ar y cyd ag arbenigwyr a'r rheini sydd â phrofiad uniongyrchol. Felly, rydym yn ymgymryd â rhaglen ymgysylltu, gan ofyn am adborth ar ein rhaglen waith cyfiawnder a'n gweledigaeth gynnar o system gyfiawnder ddatganoledig a amlinellir yn Sicrhau Cyfiawnder i Gymru. Byddwn yn defnyddio'r adborth hwn i'n helpu i adeiladu ar argymhellion Comisiwn Thomas ac i nodi sut y gallem sicrhau canlyniadau gwell byth i fenywod yng Nghymru pe bai pwerau, a'r lefelau priodol o gyllid, yn cael eu trosglwyddo i sefydliadau democrataidd Cymru.

# Profiadau menywod ar draws y System Cyfiawnder Troseddol – ymateb i benawdau ymchwiliad y Senedd

## Y cynnydd sy'n cael ei wneud, os o gwbl, gan Lywodraeth Cymru o ran gwireddu ei huchelgais i drawsnewid gwasanaethau ar gyfer troseddwyr sy'n fenywod, gan gynnwys gweithredu'r Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd

Mae'r Glasbrint Cyfiawnder Menywod ar y cyd rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru (2019) yn ceisio adeiladu ar y gwaith o drawsnewid gwasanaethau i fenywod yng Nghymru, a chyflymu'r gwaith hwnnw, er mwyn helpu i gadw menywod a chymunedau'n ddiogel a heb drosedd. Nod y Glasbrint yw cyflawni hyn drwy leihau nifer y menywod yn y system cyfiawnder troseddol, gan fynd ati'n well i ddiwallu anghenion y rheini sydd eisoes yn y system, drwy ganolbwyntio ar ddull system gyfan.

Mae diweddariad llawn ar y cynnydd ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder Menywod ar gael yn y diweddariad o'r cynllun gweithredu a gyhoeddwyd ar 25 Mai 2022. Mae hyn yn rhoi darlun cyflawn o gynlluniau a chyflawniadau yn erbyn pob un o amcanion y glasbrint. Ceir diweddariad o'r cynllun gweithredu hefyd yn erbyn y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid, a fydd yn darparu manteision i ferched a menywod ifanc yng Nghymru fel rhan o'r garfan ieuenctid.

Mae cynnydd sylweddol eisoes wedi'i wneud o ran dylunio a phrofi dulliau sy'n cefnogi gweledigaeth y Glasbrint o ddefnyddio dull system gyfan. Mae eisoes wedi dangos manteision dull gweithredu mwy cydweithredol rhwng asiantaethau datganoledig a rhai nad ydynt wedi'u datganoli a Chyrff Anllywodraethol. Mae'r dull gweithredu wedi creu gwir ymdeimlad o frwdfrydedd, uchelgais a gweledigaeth rhwng pawb, gan sbarduno gweithgareddau ar raddfa gyflym. O'r herwydd, mae wedi darparu tystiolaeth o fanteision mabwysiadu dull gweithredu glasbrint mewn meysydd cymhleth fel trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), gan roi'r cyfle i gydgysylltu rhaglenni gwaith pwysig a heriol i gefnogi dull system gyfan.

Mae mabwysiadu Dull System Gyfan yn creu cyfle i gydgysylltu polisïau a sbarduno ymarfer, gan leihau'r duedd o sefydliadau'n gweithio ar eu pen eu hunain. Mae wedi creu ffordd o weithio lle mae cyfleoedd i ddeall, uno a chysylltu gwaith yn well yn arfer cyffredin, ac yn llywio ac yn cysylltu â gweithgareddau cysylltiedig VAWDASV er mwyn diwallu anghenion menywod yn y ffordd orau.

Mae dull y Glasbrint wedi rhoi cyfle i nodi, adlewyrchu, croesgyfeirio a deall yn well y ffactorau cydnabyddedig sy'n sbarduno troseddu, a deall yn well yr effaith o fod yn ddioddefwr cam-drin domestig a/neu gamfanteisio/trais rhywiol a sut, yn eithaf aml, y gall y profiadau hyn wneud menywod yn fwy agored i niwed.

Mae gweithgarwch y Glasbrint yn cael ei ddatblygu mewn chwe maes ffocws thematig:-

1. Ymyrraeth Gynnar ac Atal
2. Llysoedd a Dedfrydu
3. Dedfrydau Cymunedol
4. Y Ddalfa ac Ailsefydlu
5. Systemau a llywodraethu
6. Ymchwil a gwerthuso

Ar draws y meysydd hyn, mae'r Glasbrint hefyd wedi canolbwyntio ar y canlynol:-

Datblygu darlun a dealltwriaeth

- **Datblygu set ddata integredig / un storfa o dystiolaeth mewn perthynas â menywod** – Rydym wedi creu adroddiad partneriaeth chwarterol ar draws Cymru a luniwyd i wella dealltwriaeth a monitro tueddiadau mewn perthynas â menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol. Mae hyn yn cael ei ategu wrth edrych yn fanwl ac yn rheolaidd ar ddata, lle mae angen deall materion/meysydd hollbwysig ymhellach.

- **Menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig neu gefndiroedd hil amrywiol** – Rydym wedi comisiynu ymchwil i ni allu deall yn well beth yw anghenion menywod o gefndiroedd ethnig a hil amrywiol.

- **Adolygiad llenyddiaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE)** – Rydym wedi cynnal adolygiad llenyddiaeth p Brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod i ddeall yn well beth yw proffil, amlder ac effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar fenywod yn y system gyfiawnder.

- **Gwerthuso Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod** – Rydym wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o Ddull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod (a Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar|18-25) yn ne Cymru a Gwent (Cordis Bright). Cafodd yr adroddiad terfynol ei lunio ym mis Mehefin 2022.

- **Gwerthuso pecyn hyfforddi sgiliau ymarferwyr sy'n seiliedig ar rywedd** – mae'r gwaith hwn wedi rhoi dealltwriaeth o ddulliau effeithiol o godi ymwybyddiaeth, sgiliau ac arbenigedd gweithwyr proffesiynol amlasiantaeth wrth ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar rywedd.

- **Asesu Gwerthusadwyedd y Glasbrint** – Rydym wedi comisiynu Opinion Research Services i gynnal Asesiad Gwerthusadwyedd annibynnol o'r Glasbrintiau Cyfiawnder Ieuenctid a Chyfiawnder Menywod. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2022.

- **Model cynnwys** – Rydym wedi creu model cynnwys i gefnogi dull cyd-gynhyrchu gyda menywod sydd â phrofiad uniongyrchol o'r system gyfiawnder. Rhannu'r hyn a ddysgwyd gyda rhaglenni eraill sy'n ceisio gwneud gwaith cynnwys gyda menywod i ganfod cyfleoedd ar gyfer ymuno.

Cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau (sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, cymorth i fenywod yn y gymuned, cymorth i fenywod yn y ddalfa, a'r rheini sy'n adsefydlu yng Nghymru):

- **Lansio Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod a Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25 Future 4** – Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i sefydlu'n llawn erbyn hyn yn ne Cymru a Gwent (Hydref 2019), gan ategu'r cynnig o gymorth dargyfeirio ehangach i fenywod ledled Cymru sydd wedi'i sefydlu o dan y Glasbrint. Mae disgrifiad manwl o'r gwasanaeth hwn ar gael mewn cwestiynau yn nes ymlaen, ond mae enghreifftiau o arloesi sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth hwn yn cynnwys:-

  - **Llwybr Ieuenctid i Oedolion (Y2A) yn cael ei dreialu ar hyn o bryd** yng Nghwm Taf, Caerdydd, Blaenau Gwent a Chaerffili
  - **Llwybr *menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig neu gefndiroedd hil amrywiol*** – darparu cymorth arbenigol rheng flaen a gwasanaeth ymyrraeth gynnar wedi'i deilwra i fenywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig drwy weithiwr arbenigol rhan-amser.

  Mae enghreifftiau eraill o ddatblygiadau gwasanaeth yn cynnwys:-

  - **Datblygu Model sy'n cael ei Arwain gan Seicoleg** mewn ymgynghoriad â phartneriaid, sy'n ceisio cefnogi sefydliadau i ddarparu gwasanaethau i fenywod drwy ar sail trawma a rhywedd. Mae'r model hwn wedi cael ei brofi'n ddiweddar yng nghyd-destun y cynllun dargyfeirio yng ngogledd Cymru cyn ei gyflwyno'n ehangach.

  - **Sefydlu rhaglen hyfforddi sgiliau i ymarferwyr Amlasiantaeth sy'n seiliedig ar Drawma ac sy'n Ymateb i Rywedd ar draws Cymru**, yn dilyn asesiad o anghenion hyfforddi ar draws Cymru a gynhaliwyd yn 2021. Mae'r pecyn hyfforddi hwn yn cael ei gyflwyno ar y cyd â Cymorth i Ferched Cymru, ac mae wedi'i lunio i roi sgiliau ac arbenigedd i staff mewn ymarfer sy'n seiliedig ar rywedd a thrawma.

  - **Comisiynu gwaith datrys problemau llety** – Bydd y darn pwrpasol hwn o waith yn mapio anghenion llety menywod fel sail ar gyfer llunio prawf cysyniad model llety i fenywod. Mae'r gwaith yn cael ei wneud gan Llamau a Phrifysgol Bangor ac yn y camau cynnar iawn. Mae'n annhebygol o gael ei gwblhau cyn y Flwyddyn Newydd.

  - **Lansio Gwasanaeth Ymweld â Mam PACT** yng Ngharchar Eastwood Park a Charchar Styal yn 2021 i gefnogi mamau yn y carchar i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u plant yn y gymuned (lle bo hynny er lles gorau'r plentyn).

  - **Sefydlu rôl Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig** (IDVA)/IDSA newydd – i fynd ati'n benodol i gefnogi menywod Cymru sydd yng Ngharchar Ei Fawrhydi Eastwood Park a Charchar Ei Fawrhydi Styal, a'u helpu i ailsefydlu'n ôl yng Nghymru. Mae'r rôl hon yn rhan o Wasanaeth Dull System Gyfan.

- ○ **Sefydlu prawf cysyniad Rôl Ymarferydd Trawma** i gefnogi menywod yn y gymuned sydd wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r system gyfiawnder, ar y cyd â ffrwd waith ACE o fewn Llywodraeth Cymru. Nod y cynllun yw cefnogi blaenoriaethau strategol Canolfan Cymorth ACE, y Glasbrintiau Cyfiawnder Ieuenctid a Throseddwyr Benywaidd a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru o ran ymyrraeth gynnar ac atal. Mae cyllid wedi'i ddyfarnu i 'Include' a 'Faith in Families'.

- ○ **Ariannu sefydliadau ar lawr gwlad sy'n cefnogi menywod a phlant y mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn effeithio arnynt.** Mae cyllid ar y cyd yn cael ei ddarparu o gyllidebau Glasbrint Llywodraeth Cymru ac ACE i ariannu sefydliadau ar lawr gwlad sy'n ceisio meithrin gwytnwch ymysg menywod sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol, ac sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae cyllid wedi'i ddyfarnu i Valleys Kids £34,147; Hafan £7,416; Ymddiriedolaeth Nelson £38,663 a The Centre for African Entrepreneurship £9,774.

- ○ **Sefydlu saith Cynhadledd Achos Amlasiantaeth Rhaglen Fraenaru i Fenywod** ledled Cymru, sy'n cynnwys ôl troed uned darparu pob gwasanaeth prawf. Cafodd tua 270 o fenywod eu cyfeirio i Gynadleddau Achos y Rhaglen Fraenaru i Fenywod ledled Cymru yn 2021. Mae tîm y Glasbrint yn gweithio gyda phartneriaid i edrych ar opsiynau ar gyfer ehangu'r model cynadleddau achos, yn unol â'r sylfaen dystiolaeth am angen/galw lleol.

- ○ **Cyflwyno chwe Rôl Cydlynydd Integreiddio Partneriaeth Rhaglen Fraenaru i Fenywod** sy'n cael eu cynnal gan Wasanaeth Prawf Cymru i gefnogi cydweithio rhwng asiantaethau mewn perthynas â darparu'r Dull System Gyfan i fenywod ledled Cymru a helpu i chwalu rhwystrau i fenywod rhag cael gafael ar gymorth.

- ○ **Llunio model hyblyg a haenog o ymgysylltu â llysoedd** i gefnogi dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ymateb i'r data sy'n ymwneud â thueddiadau dedfrydu menywod i garchar.

Dylanwadu a llywio (cenedlaethol a DU)

- **Strategaeth Cyfiawnder Menywod Gogledd Cymru** (lefel cyflawni lleol) – Nodwyd y bydd datblygu strategaeth leol ar gyfer gogledd Cymru yn gyfle i gryfhau ymgysylltiad a buddsoddiad ymhellach gan bartneriaid lleol a sicrhau mecanwaith clir ar gyfer gweithredu a chyflwyno allbynnau o'r rhaglen genedlaethol.  Mae hefyd yn cynnig cyfle allweddol i weithredu fel achos prawf ffurfiol ar gyfer datblygu strategaeth leol.
- **Ymgysylltu â Llysoedd/Dedfrydwyr (lefel Cymru)** – Rydym wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu, sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a magu hyder mewn opsiynau yn y gymuned i fenywod ymysg dedfrydwyr, cynghorwyr cyfreithiol a phobl allweddol sy'n gwneud penderfyniadau yn y llysoedd (wedi cyrraedd dros 270)

- **Agenda ACE/Fframwaith Straen Trawmatig Cymru (lefel Cymru)** – Rydym wedi cyfrannu at lunio ac ymgynghori ar fframwaith straen trawmatig Cymru i helpu i sicrhau bod y Fframwaith newydd yn cael ei ddatblygu o ran safbwynt menyw.
- **Hyrwyddo newidiadau i iaith a therminoleg (lefel Cymru)** – arloesi mewn gwelliannau yn y modd y defnyddir iaith a therminoleg wrth gyfathrebu am fenywod a chyda menywod sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru.

Sefydlu a chynnal drwy ddull systemig

- Mae'r Glasbrint eisoes wedi denu buddsoddiad gan bartneriaid craidd, ac mae Tîm y Glasbrint wrthi'n prisio elfennau o'r broses gyflawni ar draws y system gyfan er mwyn galluogi partneriaid buddsoddi i wneud ymrwymiadau tymor hwy.

Gweithgarwch ychwanegol wedi'i gynllunio ar gyfer 2022/23 (os bydd y cyllid yn cael ei gadarnhau)

- **Ymchwil i anafiadau i'r ymennydd** – Ymchwil i ddeall yn well pa mor gyffredin yw anafiadau i'r ymennydd ac effaith hynny ar fenywod yng Nghymru sydd o fewn cwmpas y system cyfiawnder troseddol. Bydd cyllid yn helpu rhaglen o weithgareddau i fwrw ymlaen ag argymhellion ar ffurf sawl rhaglen (gan gynnwys Glasbrint VAWDASV newydd), gyda chyfle i gefnogi grŵp cynghori Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar niwroamrywiaeth.

- **Ymchwil i anghymesuredd hiliol** – Dechrau ymchwil i ganfod pwyntiau cyswllt a phrosesau yn y System Cyfiawnder Troseddol a allai fod yn cyfrannu at anghymesuredd hiliol, sy'n creu rhwystrau rhag cael gafael ar gymorth ymyrraeth gynnar.

**Y diweddaraf am y gwaith ar ddargyfeirio a Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod**

Y Rhaglen Fraenaru i Fenywod

Mae Dull System Gyfan arloesol y Cynllun Braenaru i Fenywod (a Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25) yn un enghraifft o sut mae gweledigaeth y Glasbrint yn cael ei rhoi ar waith yn ne Cymru ac yng Ngwent. Mae'r buddsoddiad sylweddol a wnaed gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a Llywodraeth Cymru i Ddull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod a'r Gwasanaeth 18-25 yn adlewyrchu ymrwymiad comisiynwyr i sicrhau gwelliannau cynaliadwy i ganlyniadau a phrofiadau menywod drwy gydol eu taith yn y system gyfiawnder yng Nghymru, yn unol â gweledigaeth y Glasbrint. Gosododd comisiynwyr yr uchelgais o gynllunio gwasanaeth a allai weithio'n ddi-dor i gefnogi menywod ar bob cam (gan gynnwys pwyntiau pontio allweddol) yn y System Cyfiawnder Troseddol, gan osgoi darparu gwasanaeth tameidiog a galluogi mwy o gysondeb o ran cefnogi'r dasg o

wella bywydau menywod, plant a phobl ifanc agored i niwed. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan Future 4, sy'n gonsortiwm yn cynnwys G4S, Cymru Ddiogelach, Include a Llamau.

Roedd comisiynwyr yn awyddus i sefydlu gwasanaeth a allai weithio'n ddi-dor i:

- Gefnogi menywod ar bob cam o'r System Cyfiawnder Troseddol, gan gynnwys pwyntiau pontio allweddol, er mwyn osgoi darparu gwasanaeth tameidiog a darparu cefnogaeth gyson i fenywod sydd yn y system cyfiawnder troseddol neu mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol o'r cyfle cyntaf un a thrwy gydol eu taith.
- Integreiddio a gwau o gwmpas y gwasanaeth statudol a gynigir drwy ddarparu gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac atal (ar gyfer y rheini sydd y tu allan i gwmpas y gwasanaethau statudol)
- Darparu swyddogaeth i gydgysylltu asiantaethau a chamau'r system drwy gefnogi trefniadau pontio a darparu parhad drwy'r system gyfan, cydlynu ymateb amlasiantaeth i gefnogi lle mae mwy nag un asiantaeth yn ymwneud â defnyddiwr gwasanaeth.

Mae cymorth ar gael ar gyfer:

- Menywod sydd mewn perygl o aildroseddu/troseddu
- Menywod adeg eu harestio (gan gynnwys menywod sy'n gymwys i gael eu dargyfeirio)
- Menywod yn y cam cyn-dedfrydu
- Menywod sy'n cyflawni gorchmynion statudol (cymunedol neu garchar), a
- Menywod sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar yn ôl i'r gymuned.

Mae cymorth Future 4 ar gael i fenywod unrhyw bryd yn ystod eu hymwneud â'r Heddlu, Gwasanaeth Prawf, y Llysoedd a charchardai, ac mae'n cynnig arweiniad a chyngor, cyfeirio, atgyfeirio achosion, cefnogaeth ymarferol ac emosiynol. Mae ymyriadau yn cael eu darparu ar-lein, mewn grwpiau neu un i un ar gyfer anghenion dynodedig, ac yn cefnogi menywod sydd yn y system gyfiawnder (neu mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r system gyfiawnder.

Mae'r Gwasanaeth yn darparu amrywiaeth o gymorth i fenywod sy'n seiliedig ar anghenion ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn cynnwys cymorth un-i-un, ymyriadau, cyfeirio ac atgyfeirio at asiantaethau arbenigol. Mae'r tabl isod yn rhoi syniad o nifer y menywod a gafodd gymorth gan Ddull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod ar draws pob un o gamau allweddol y System Gyfiawnder rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2022. Fel y gwelir o'r tabl isod, cafodd 2,239 o achosion eu hatgyfeirio i Wasanaeth y Dull System Gyfan yn ystod y cyfnod hwn. Roedd hyn yn cynnwys atgyfeiriadau o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys er enghraifft:

- Dalfa'r Heddlu
- Presenoldeb Gwirfoddol yr Heddlu
- Llwybrau atgyfeirio eraill gan yr heddlu (Cymdogaeth, Uned Diogelu'r Cyhoedd, Tîm Ymateb
- Gweithiwr Cyfeirio ar ôl Arestio
- Hunanatgyfeirio - Archwiliad Cell

- Hunangyfeirio Cerdded i mewn
- Carchar
- Y Gwasanaeth Prawf
- Atgyfeiriad Cyfiawnder Troseddol ar Gamddefnyddio Sylweddau
- Gwasanaethau eraill (er enghraifft, Llysoedd, awdurdodau lleol, trydydd sector)

| Amserlen | De Cymru | Gwent | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Ebrill-Mehefin 2020** | 196 | 74 | 270 |
| **Gorffennaf-Medi 2020** | 193 | 100 | 293 |
| **Hydref-Rhagfyr 2020** | 160 | 76 | 236 |
| **Ionawr-Mawrth 2021** | 185 | 108 | 293 |
| **Ebrill-Mehefin 2021** | 211 | 123 | 334 |
| **Gorffennaf-Medi 2021** | 235 | 75 | 310 |
| **Hydref-Rhagfyr 2021** | 214 | 88 | 302 |
| **Ionawr-Mawrth 2022** | 137 | 64 | 201 |
| **Cyfanswm** | **1,531** | **708** | **2239** |

*Tabl 1. Nifer yr atgyfeiriadau i Ddull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod yn ne Cymru a Gwent (yn cynnwys atgyfeiriadau dargyfeirio).*

Ers i Wasanaeth Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod fynd ar waith yn ne Cymru a Gwent ym mis Hydref 2019, mae'r Gwasanaeth wedi darparu enghraifft effeithiol o sut y gellir gweithredu dull system gyfan ar gyfer menywod (a gwasanaeth ymyrraeth gynharach ar gyfer oedolion ifanc 18-25 oed) yng Nghymru. Roedd gwerthusiad annibynnol o Ddull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod a'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25 a gynhaliwyd gan Cordis Bright (2022) yn tynnu sylw at nifer o ganfyddiadau cadarnhaol o ran sut mae'r gwasanaeth wedi cefnogi menywod i fynd i'r afael ag anghenion a gwendidau sy'n gysylltiedig â throseddu, ar draws nifer o feysydd. Canfu'r gwerthusiad hwn fod y rhai a gyfeiriwyd yn ymgysylltu'n dda â'r gwasanaeth ac na fyddent fel arall wedi ymgysylltu ar y pwynt hwnnw yn eu hymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Rhai o'r nodweddion allweddol a oedd yn galluogi ymgysylltu cadarnhaol oedd bod y gefnogaeth yn cael ei hystyried yn rhywbeth annibynnol ar y system cyfiawnder troseddol, a bod dull wedi'i deilwra ar gyfer lleoliad, math o ymgysylltu, a pha mor ddwys a ffurfiol oedd yr ymgysylltu. Roedd y gwerthusiad hefyd wedi nodi gwelliannau mewn canlyniadau personol i'r rheini sy'n cael eu hatgyfeirio, gan gynnwys gwelliannau mewn iechyd meddwl a lles, iechyd corfforol a pherthnasoedd

teuluol. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, cafodd yr adborth canlynol ei roi gan fenywod a gefnogir drwy wasanaeth y Dull System Gyfan:

*Adborth gan Gleient ynghylch Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod*

- *'Ysgrifennodd [gweithiwr achos] lythyr i mi ar gyfer y llys ac roedd hynny'n help mawr ... eglurodd wrthynt pa mor edifar oeddwn i a faint roedd hyn yn effeithio arnaf i. Fe wnaeth hyn helpu'r bobl yn y llys i ddeall fy sefyllfa'n well.'*
- *'Mae [gweithiwr achos] wedi gwneud i mi deimlo'n falch ac wedi fy helpu i ddatblygu ac i gyrraedd y man lle rydw i nawr, lle doeddwn i erioed yn meddwl y byddwn i. Fyddwn i ddim yn gwneud unrhyw beth i beryglu hyn.'*
- *Roedd yr amseru'n ffactor enfawr... llwyddodd [gweithiwr achos] i estyn llaw ar yr adeg iawn. Pe na fyddwn wedi cael y cymorth yn y gell y diwrnod hwnnw, fe fyddwn i wedi colli pob llygedyn o obaith.'*

Drwy gydol y cyfnod cyflawni presennol, mae'r dull system gyfan wedi parhau i arloesi a datblygu'n sylweddol, mewn ymateb i dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg ynghylch anghenion menywod. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- **Llwybr Ieuenctid i Oedolion Y2A** – Fe wnaeth y Dull System Gyfan ochr yn ochr â Gwasanaeth Cynhwysol Cymru Ddiogelach sefydlu llwybr atgyfeirio ar gyfer menywod ifanc, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rheini sy'n symud o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion i gefnogi menywod ifanc i wneud dewisiadau cadarnhaol yn eu ffordd o fyw. Mae'r gwasanaethau'n cynnig cymorth i fenywod ifanc 16-17 oed sy'n cael eu cefnogi gan Wasanaethau Troseddau Ieuenctid neu sy'n symud i wasanaethau oedolion yng Nghaerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Cwm Taf a Gwent.

- ***Llwybr menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig neu gefndiroedd hil amrywiol*** – Llwybr wedi'i sefydlu sy'n darparu cymorth arbenigol rheng flaen a gwasanaeth ymyrraeth gynnar wedi'i deilwra i ***fenywod o gefndiroedd ethnig neu gefndiroedd hil amrywiol*** sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau cyfiawnder troseddol neu mewn perygl o ddod i gysylltiad â nhw. Mae gweithiwr arbenigol rhan-amser ar gyfer ***menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig neu gefndiroedd hil amrywiol*** wedi'i recriwtio (yn gweithio o Fae Caerdydd) i ymgysylltu, cefnogi a diogelu menywod sy'n gysylltiedig â'r System Cyfiawnder Troseddol.

- **Gwasanaeth Mentora -** Wedi cyflwyno Swyddog Cefnogi Mentoriaid a Gwirfoddolwyr newydd Cymru Ddiogelach i ddarparu cymorth ychwanegol i ddatblygu, recriwtio, hyfforddi a lleoli mentoriaid gwirfoddol yn y gwasanaeth. Mae nifer o fentoriaid ar waith erbyn hyn.

- Cymorth **IDVA/IDSA** i fenywod Cymru mewn carchardai yn Lloegr (Carchar Styal a Charchar Eastwood Park) sy'n ailsefydlu'n ôl yng Nghymru.

- **Llwybr Cyflogaeth Trafnidiaeth Cymru** – gweithio gyda'r gwasanaeth prawf a Thrafnidiaeth Cymru i greu llwybr cyflogaeth ar gyfer menywod sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder.

- **Cynllun peilot Revolving Door** – menter ar y cyd rhwng Heddlu De Cymru, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Heddlu Gwent, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, a Future4. Mae'n darparu dull penodol ar gyfer y rheini sydd wedi cyflawni nifer o droseddau lefel isel a lle mae risg y bydd ymddygiad troseddol yn gwaethygu. Cafodd y cynllun peilot ei lansio ym mis Gorffennaf 2021.

Cynlluniau dargyfeirio eraill yng Nghymru

Mae cynlluniau dargyfeirio ar wahân, y mae menywod yn rhan o'u cwmpas, hefyd wedi'u sefydlu yn Nyfed Powys ac yng Ngogledd Cymru. Yn Nyfed Powys, cafodd y 'Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr' a ariennir gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ei roi ar waith ym mis Tachwedd 2019, gyda chymorth ymyrraeth gan Pobl. Yng ngogledd Cymru, aeth y cynllun dargyfeirio 'Checkpoint' ar waith ym mis Tachwedd 2019 hefyd, wedi'i ariannu gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru. Mae'r ddau gynllun dargyfeirio'n cynnwys llwybrau cymorth penodol i fenywod. Mae'r tabl isod yn rhoi syniad o nifer yr atgyfeiriadau dargyfeirio ar draws pob un o'r rhanbarthau.

| Ardal | Ebr-Meh 20 | Gorff-Medi 20 | Hyd-Rhag 20 | Ion-Maw 21 | Ebr-Meh 21 | Gorff-Medi 21 | Hyd-Rhag 21 | Ion-Maw 22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gogledd Cymru** | 87 | 97 | 73 | 93 | 60 | 63 | 55 | 61 |
| **Dyfed-Powys** | 11 | 9 | * | 13 | 8 | * | 8 | 13 |
| **De Cymru a Gwent** | 92 | 124 | 102 | 115 | 131 | 132 | 91 | 80 |
| **Cyfanswm** | **190** | **230** | **177** | **221** | **199** | **200** | **154** | **154** |

*Tabl 2. Nifer yr atgyfeiriadau dargyfeirio ar draws Gymru.*

Wrth gyflawni gweledigaeth y Glasbrint ar gyfer y system gyfan yng Nghymru, canolbwyntiwyd hefyd ar sefydlu dulliau gweithredu sy'n ceisio gwella cyfleoedd i fenywod Cymru yn y carchar gadw mewn cysylltiad â'u plant. Nid oes dim carchardai i fenywod yng Nghymru, felly mae menywod sy'n cael dedfryd o garchar yn cael eu cadw 100 milltir, ar gyfartaledd, o'u cartrefi a'u rhwydweithiau cymorth teuluoedd. Mae cefnogi menywod o Gymru i feithrin a chynnal perthynas gadarnhaol â'u teuluoedd a helpu i liniaru effaith carcharu rhieni ar blant (fel un o'r 9 Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod sy'n cael ei gydnabod), yn flaenoriaeth allweddol yn y Glasbrint. Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi wedi ariannu gwasanaeth arloesol ar y cyd, a elwir yn Wasanaeth Ymweld â Mam Pact, i fynd ati'n benodol i gefnogi menywod o Gymru

sy’n bwrw dedfrydau mewn carchar yn Lloegr i gadw cysylltiad â’u plant (lle mae hynny er lles gorau’r plentyn). Mae dolen at werthusiad cynharach o Wasanaeth Ymweld â Mam Pact ar gael isod:

Final-PACT-report-Final-version.-12.7.17.pdf (cardiff.ac.uk)

Camau nesaf gwasanaethau dargyfeirio yng Nghymru

Mae Comisiynwyr (gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi) wedi cydnabod bod cyfle i adeiladu ar y swmp sylweddol sydd wedi’i ddysgu hyd yma mewn perthynas â’r datblygiadau allweddol hyn yn y Glasbrint o ran dylunio a darparu’r genhedlaeth nesaf o wasanaethau i fenywod ledled Cymru. Y weledigaeth, drwy’r ymarfer comisiynu presennol, yw ysgogi mwy o gysondeb yn y gwasanaeth a gynigir i fenywod sydd mewn cysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol neu mewn perygl o ddod i gysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru, drwy ddull caffael cydweithredol yng Nghymru. Bydd hyn yn golygu bod modd integreiddio contractau allweddol ar gyfer menywod yn well (gan gynnwys contract newydd y Gwasanaeth Adsefydlu wedi'i Gomisiynu gan y Gwasanaeth Prawf ar gyfer Gwasanaethau Menywod), gan barhau i alluogi arloesi lleol i sicrhau bod y model darparu yn hyblyg i ymateb i anghenion y grŵp demograffig lleol.

Mae’r Glasbrint wedi ymrwymo hefyd i edrych ar opsiynau i gryfhau’r rhwydwaith o ddewisiadau llety i fenywod yng Nghymru sydd, o bosibl, mewn cysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol neu mewn perygl o ddod i gysylltiad. Er mwyn cyflawni’r uchelgais hwn, mae’r Glasbrint wedi comisiynu darn o waith annibynnol gan ddarparwr tai arbenigol sy’n gweithio ochr yn ochr â phartner academaidd, i helpu i ddatblygu’r sylfaen dystiolaeth a llywio cynnig ar gyfer datblygu a phrofi model sy’n cynnig atebion tai i fenywod. Y nod yw sicrhau bod unrhyw atebion llety newydd i fenywod yng Nghymru yn mynd i’r afael â’r heriau y gall menywod eu hwynebu o ran cael gafael ar lety diogel, saff a phriodol, a bod hyn yn cael ei integreiddio’n briodol yn nhirlun partneriaeth ehangach dull system gyfan y rhaglen fraenaru i fenywod.

Er mwyn gwireddu gweledigaeth y model dull system gyfan ar gyfer menywod ledled Cymru yn llawn, bydd angen y canlynol:

- **Buddsoddiad gan gomisiynwyr, Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi** i fodel y Dull System Gyfan ar draws Cymru (sy’n rhychwantu pob un o ardaloedd y pedwar heddlu), fel bod y mynediad at gymorth i fenywod yn gyson, ni waeth ym mha ardal ddaearyddol maent yn byw, ac er mwyn osgoi dychwelyd i ddarpariaeth gwasanaeth tameidiog.

- **Awydd i ddatblygu dull comisiynu cynaliadwy a chadarn i** gefnogi’r gwaith o gyflawni’r model yn yr hirdymor ar draws pob rhan o Gymru, yn seiliedig ar egwyddorion cyffredin i gadw menywod yn ddiogel a lleihau troseddu ac aildroseddu.

- Awydd am **fodel sy'n hyblyg ac sy'n gallu cadw i fyny â thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg**, gan gynnwys newid yn y galw a phroffil anghenion menywod mewn cymunedau lleol.

- **Cydnabod elfennau darparu statudol y model**, a'r angen i reoli'r elfen hon yn unol â gofynion cenedlaethol.

- Awydd i **gefnogi gwaith meithrin gallu a chadernid o fewn tirwedd cyflenwi mewn partneriaeth yng Nghymru**, gan fanteisio ar bob cyfle i ddysgu ac arloesi gan bartneriaid y tu allan i Gymru hefyd, ac

- Awydd am fodel sy'**n gallu integreiddio a chyd-fynd yn rhwydd â datblygiadau/cynlluniau newydd**, fel y Ganolfan Breswyl newydd i Fenywod (gweler yr adran nesaf am ragor o fanylion), er mwyn darparu parhad yn y gefnogaeth i fenywod ac osgoi tirwedd darparu gwasanaethau sy'n dameidiog.

## Y dystiolaeth ar gyfer datblygu Canolfannau Adsefydlu i Fenywod a dadleuon dros leihau dedfrydau o garchar i fenywod yng Nghymru, gan gynnwys barn am y Ganolfan i Fenywod a fydd yn agor yn Abertawe

Mae lleihau nifer y menywod sy’n cael eu dedfrydu i garchar, gan ganolbwyntio’n benodol ar ddedfrydau byr yn y carchar (lle mae dedfryd yn y gymuned yn opsiwn ymarferol) yn un o brif flaenoriaethau’r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Menywod. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y rhan fwyaf o fenywod sy’n cael dedfryd fer o garchar yng Nghymru wedi cyflawni troseddau di-drais. Mae menywod hefyd yn tueddu i gyflawni troseddau llai difrifol na dynion, felly maent yn fwy tebygol o gael dedfryd fer o garchar. Yn aml, nid yw dedfrydau byr o garchar yn rhoi digon o amser i alluogi’r holl weithgareddau adsefydlu i gael eu cyflawni. Gall dedfrydau byr o garchar fod yn her sylweddol i fenywod Cymru, sy’n cael eu cadw 100 milltir o’u cartrefi ar gyfartaledd. Gall hyn greu rhwystrau ychwanegol o ran gallu cadw cysylltiad â phlant a theuluoedd, a gwaethygu effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, gyda charcharu rhieni yn un o’r profiadau hynny.

Mae prosiect Glasbrint i Fenywod yn ceisio lleihau nifer y menywod sy’n cael eu dedfrydu i garchar am dymor byr drwy ganolbwyntio ar ddull system gyfan. Mae hyn wedi cynnwys cryfhau cyfleoedd ymyrraeth gynnar a dargyfeirio fel nad yw materion yn mynd yn fwy cymhleth a rhag cael mynediad ffurfiol i’r System Cyfiawnder Troseddol, a hefyd i gryfhau’r ddarpariaeth ehangach yn y gymuned i fenywod er mwyn sicrhau bod atebion cadarn ar waith yn y gymuned i fynd i’r afael ag anghenion sy’n ymwneud â throseddu ymysg menywod.

Mae ymchwil yn awgrymu mai drwy gymorth yn y gymuned y mae llawer o’r atebion i fenywod sy’n troseddu. Felly, mae comisiynwyr wedi cynllunio gwasanaeth llawn Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod, gyda’r gallu i gefnogi unrhyw fenyw yn y gymuned, gan gynnwys y rheini sy’n bwrw dedfrydau statudol. Mae’r Dull System Gyfan yn gallu gwau o gwmpas y ddarpariaeth bresennol a’i hategu, gan gynnig opsiwn o barhad yn y gefnogaeth i fenywod yn dilyn dedfryd statudol.

Mae rhan o fodel cymunedol Dull System Gyfan wedi cynnwys sefydlu rôl chwe Chydlynydd Integreiddio Partneriaeth Rhaglen Fraenaru i Fenywod newydd dan ofal Gwasanaeth Prawf Cymru, i helpu i gryfhau llwybrau a chael gwared ar rwystrau i fenywod gael cefnogaeth. Mae gweledigaeth y Dull System Gyfan hefyd wedi cael ei galluogi drwy ddatblygu saith Cynhadledd Achos amlasiantaeth Rhaglen Fraenaru i Fenywod ledled Cymru, sy’n dod â phartneriaid at ei gilydd i ddatrys problemau er mwyn cefnogi menywod sy’n gysylltiedig â’r System Cyfiawnder Troseddol sydd ag anghenion cymhleth a gwendidau.

Er mwyn monitro data a thueddiadau’n well mewn perthynas â chanlyniadau dedfrydu menywod ledled Cymru, mae prosiect y Glasbrint hefyd wedi creu adroddiad newydd, amlasiantaeth ar gyfer Partneriaeth Menywod ar draws Gymru. Mae’r dystiolaeth a gasglwyd drwy’r gwaith hwn wedi galluogi’r tîm i ganfod ardaloedd llysoedd unigol, fel Llys Ynadon Abertawe a Llys Ynadon Merthyr Tudful, lle byddai gweithgarwch penodol i leihau dedfrydau o garchar i fenywod yn fuddiol. Mae’r dystiolaeth a gasglwyd drwy’r ymarfer hwn wedi helpu i lywio’r penderfyniad i

dreialu'r Ganolfan Breswyl newydd i Fenywod yn Abertawe. Mae'r data hefyd wedi helpu i lywio gwaith targedu lleol ar gyfer cam nesaf gwaith Glasbrint i ddylunio a phrofi model ymgysylltu gwell â llysoedd, a fydd yn ceisio cyfeirio gweithgarwch ac adnoddau yn y llysoedd hynny y mae'r dystiolaeth yn awgrymu y byddai'n fuddiol darparu gwell cymorth ymgysylltu.

Canolfan Breswyl i Fenywod

Bydd Canolfan Breswyl newydd i Fenywod gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ategu nodau'r Glasbrint i gryfhau darpariaeth yn y gymuned i fenywod, a chadw menywod yn agosach at eu cartrefi a'u cymuned wrth fynd i'r afael â gwraidd eu hymddygiad troseddol. Mae'r Ganolfan Breswyl i Fenywod yn arloesi gyda dull gweithredu ar gyfer menywod sy'n cyflawni troseddau lefel isel drwy gynnig cymorth pwrpasol i oddeutu 50 o fenywod y flwyddyn sydd wedi cael eu dargyfeirio o ddedfryd bosibl o garchar o hyd at 12 mis sy'n mynd i'r afael â gwraidd eu troseddu. Bydd menywod sy'n cael eu dargyfeirio i'r ganolfan yn cael cwnsela a therapi iechyd meddwl un i un i fynd i'r afael â thrawma a bod yn gaeth i sylweddau, yn ogystal â chymorth hirdymor i gael gwaith a chynnal perthnasoedd teuluol pan fyddant yn symud yn ôl i'w cymuned o'r ganolfan.

Bydd y Ganolfan yn cadw menywod lleol yn agos at eu cartrefi ac yn cynnig amgylchedd cartrefol diogel a saff gyda chymorth adsefydlu dwys fel rhan o ddedfryd gymunedol fel eu bod yn gallu torri'r cylch o aildroseddu a chael mynediad at ystod ehangach o gefnogaeth i ailadeiladu eu bywydau. Bydd hyn yn cael ei gynnig i breswylwyr a rhai nad ydynt yn preswylio. Bydd menywod yn y gymuned leol yn dal i allu elwa o'r gwasanaethau a ddarperir, a heb orfod preswylio yno. Bydd y ffocws ar fenywod sy'n peri risg isel i ganolig o aildroseddu, a byddant naill ai'n ceisio gwyro oddi wrth y system cyfiawnder troseddol yn llwyr, neu, os ydynt wedi cael cosb gymunedol, byddant yn gweithio ar y cyd i leihau'r risg o droseddu eto.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a phartneriaid lleol eraill i ddod o hyd i safle addas, ac yn aros am ganiatâd cynllunio ar hyn o bryd. Mae tîm y Glasbrint yn gweithio'n agos gyda thîm Canolfan Breswyl i Fenywod i sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth newydd yn cael ei hintegreiddio o fewn cyd-destun darparu ehangach y dull system gyfan, gan gynnig cyfle i sicrhau parhad yn y gefnogaeth i fenywod sy'n defnyddio darpariaeth y ganolfan, yn ystod eu taith cyfiawnder.

Sefyllfa ddiweddaraf Canolfan Breswyl i Fenywod Abertawe

Cyhoeddwyd y safle ar gyfer y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn Abertawe ar 20 Mai, a chyflwynwyd caniatâd cynllunio llawn ar yr un dyddiad. Cynhaliwyd digwyddiad galw heibio ar gyfer trigolion a Chynghorwyr Abertawe ar 25 Gorffennaf.

Ar 6 Medi, cyfarfu Pwyllgor Cynllunio Cyngor Abertawe a phleidleisiwyd yn erbyn y cais. Gohiriwyd y penderfyniad terfynol tan 4 Hydref i ganiatáu i swyddogion cynllunio ysgrifennu rhesymau dros wrthod. Ar ôl derbyn hyn, gellir ystyried y camau nesaf.

Ar hyn o bryd, mae menywod yng Nghymru sy'n cael dedfrydau o garchar yn cael eu cadw yng ngharchardai Lloegr gan nad oes carchar i fenywod yng Nghymru. Mae ystadegau'n dangos bod menywod Cymru, yn enwedig o rai ardaloedd ledled Cymru, yn cael dedfrydau byr o garchar y gellid eu hosgoi gydag ymateb mwy penodol naill ai adeg eu harestio neu mewn gwrandawiadau dedfrydu yn y llysoedd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na fyddem yn dymuno cael carchar i fenywod yng Nghymru oherwydd dylid bob amser troi at ddulliau cymunedol a dargyfeirio.

Mae cynllun peilot Adroddiad Cyn Dedfrydu'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EI Fawrhydi yn canolbwyntio ar y ffaith y dylai pob menyw gael ei hystyried ar gyfer Adroddiad Cyn-Dedfrydu, er mwyn sicrhau bod dull gweithredu unigol sy'n seiliedig ar drawma yn cael ei ddefnyddio o'r cychwyn cyntaf. Byddai hyn yn annog dewisiadau eraill yn lle carcharu i gael eu hystyried a'u rhoi. I'r menywod hynny sy'n pasio'r trothwy carcharu, ac yn cael dedfryd o garchar, yna dylent gael gwell mynediad at wasanaethau yn yr Ystad Carchardai. Drwy'r Glasbrint i Fenywod, mae partneriaid yn gweithio'n agos gyda'r carchardai sy'n derbyn ac sydd agosaf at Gymru er mwyn darparu gwell darpariaeth o wasanaethau a gwell gwasanaethau adsefydlu. O ran y rheini sydd agosaf at Gymru, yng Ngharchar Eastwood Park a Charchar Styal y mae oddeutu 75% o'r holl fenywod yng Nghymru sy'n cael eu cadw yn y ddalfa neu'n cael eu cadw ar remand, gyda'r 25% arall wedi'u gwasgaru ar draws yr holl garchardai eraill.

Mae aildroseddu'n cyfrif am y rhan fwyaf o ddedfrydau tymor byr ar gyfer menywod yng Nghymru, er enghraifft, dwyn o siopau dro ar ôl tro, ac o ystyried bod hyd y ddedfryd o garchar yn aml yn fyr iawn, ar gyfartaledd 7 wythnos, ac y byddai 3 wythnos a hanner yn cael ei dreulio yn y ddalfa, nid yw hyn yn ddigon o amser i ganiatáu gwneud trefniadau rhyddhau priodol, o ran gofal iechyd, llety, ac ati. Felly, mae'n creu sefyllfa o droi mewn cylchoedd.

Dylid cadw dedfrydau carchar ar gyfer y menywod hynny sy'n peri'r risg fwyaf o niwed ac na ellir eu rheoli'n ddiogel yn y gymuned.

Mae Ffrwd Waith Dalfa ac Ailsefydlu'r Glasbrint yn gweithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi i wella gwasanaethau adsefydlu ar gyfer menywod Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwneud y defnydd mwyaf posibl o hosteli mechnïaeth i osgoi remand diangen, ystyried dewisiadau eraill yn lle atgyfeiriadau i Adeiladau Cymeradwy, a gwneud gwell defnydd o lety presennol i fenywod Cymru a'r rheini sy'n gadael carchar.

Mae'n gweithio'n agos hefyd gyda chydweithwyr ym maes iechyd i sicrhau bod pontio llyfn rhwng y gymuned i'r carchar ac i'r gymuned ac nad yw Byrddau Iechyd a threfniadau cartref lleol yn effeithio ar barhad gofal ar gyfer anghenion iechyd menywod Cymru.

Drwy'r ffrwd waith, rydym yn gweithio'n agos gyda'r 2 brif garchar, Carchar Eastwood Park a Charchar Styal i nodi'r rhwystrau sy'n wynebu menywod Cymru, gan gynnwys mynediad at ymyriadau, mynediad at y Ddarpariaeth Ymweld â Mam, ac ystyried Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer pob menyw, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu cadw mewn carchardai eraill a menywod trawsryweddol.

## Sicrhau bod darpariaeth a chefnogaeth briodol ar gael ar gyfer gwahanol grwpiau o fenywod gan gynnwys merched dan 18 oed, menywod anabl, y rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl, menywod o leiafrifoedd ethnig, y rheini sydd wedi profi trais rhywiol neu gam-drin domestig, menywod sydd â phroblemau alcohol neu gyffuriau, a menywod sy'n siarad Cymraeg.

Mae Glasbrint Cyfiawnder Menywod (2019) yn ceisio defnyddio dull system gyfan i wella'r canlyniadau i fenywod o Gymru ar **bob cam** o'r daith cyfiawnder troseddol. Mae'r Ddalfa ac Ailsefydlu yn un o feysydd thematig y Glasbrint. Mae'r ffrwd waith hon yn rhoi ffocws penodol ar fenywod Cymru mewn carchardai a'r rheini sy'n cael eu hailsefydlu yng Nghymru, gan gynnwys:

- Gweithio gyda gwasanaethau adsefydlu i ddarparu ymyriadau effeithiol cyn ac ar ôl rhyddhau mewn carchardai lle mae menywod wedi'u lleoli
- Sefydlu gwasanaethau i wella a chadw cysylltiadau â phlant a theuluoedd
- Cryfhau llwybrau at gymorth i fenywod Cymru sy'n gadael y carchar ac sy'n cael eu hailsefydlu yng Nghymru – mae hyn yn cynnwys adeiladu ar seilwaith braenaru presennol i fenywod yng Nghymru
- Gweithio gyda phartneriaid iechyd i sicrhau bod anghenion iechyd menywod yn cael eu diwallu wrth iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa – mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Glasbrint wrth i ni symud ymlaen i gam 2 gweithgarwch Glasbrint.

I gydnabod yr heriau y gall menywod eu hwynebu wrth gael eu cadw mewn carchar yn bell iawn o'u cartrefi, mae tîm Glasbrint Cyfiawnder Menywod yn gweithio gydag awdurdodau perthnasol i ganfod cyfleoedd i ddylanwadu'n gadarnhaol ar bolisi mewn perthynas â dosbarthu menywod Cymru ar draws yr ystad carchardai, gyda'r nod o gadw menywod yn agosach at eu cartrefi.

Er mai un o brif nodau'r Glasbrint yw lleihau nifer y merched sy'n cael eu carcharu, lle mae dedfryd yn y gymuned yn opsiwn ymarferol, cydnabyddir y gallai fod angen dedfryd o garchar ar gyfer nifer fach o fenywod, oherwydd natur y drosedd. I fenywod sy'n cael dedfryd o garchar, mae'r Glasbrint wedi ymrwymo i sicrhau bod darpariaeth briodol ar waith i helpu menywod i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd. Roedd Adolygiad yr Arglwydd Farmer 'The Importance of Strengthening Female Offenders' Family and other Relationships to Prevent Reoffending and Reduce Intergenerational Crime' (2019) yn tynnu sylw at y ffaith bod perthnasoedd yn arbennig o bwysig i fenywod ac yn effeithio ar y tebygolrwydd o aildroseddu 'yn llawer amlach nag y byddai dynion'. I gydnabod hyn (ac fel yr amlinellwyd yn C1), mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Gwasanaeth pwrpasol 'Ymweld â Mam' ar gyfer menywod Cymru sydd yn y carchar. Cafodd y Gwasanaeth hwn ei gydnabod fel arfer da gan yr Arglwydd Farmer, a dynnodd sylw at werth pwysig y Gwasanaeth i fenywod, eu plant a'u gofalwyr, ac i gymdeithas yn gyffredinol.

Mae rhagor o wybodaeth isod am yr ystod o ddarpariaeth sydd ar gael. Mae llawer o'r meysydd hyn yn darparu gwasanaethau i fenywod a merched fel rhan o'r garfan

droseddu ehangach, ond rydym wedi'u cynnwys yma gan fod y gwasanaethau'n cynnig darpariaeth bwysig a sylweddol i fenywod a merched yng Nghymru.

**Cymorth i fenywod a'u plant – Ymweld â Mam**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydariannu'r gwasanaeth 'Ymweld â Mam', ynghyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Mae Gwasanaeth Ymweld â Mam Pact wedi mynd ar waith yng Ngharchar Eastwood Park a Charchar Styal.

Mae cynnal perthynas deuluol gadarnhaol rhwng mamau yn y carchar a'u plant yn hanfodol i'r fam a'r plentyn. Mae'r perthnasoedd hyn yn helpu i ailsefydlu menywod, yn lleihau gorbryder yn y carchar, yn lleihau hunan-niweidio, ac yn cyfrannu at drefn a disgyblaeth dda yn y carchar. Mae'r perthnasoedd hyn hefyd yn cael effaith sylweddol ar les emosiynol y plant, eu cyrhaeddiad yn yr ysgol, a'r risg y byddant hwy hefyd yn troi at droseddu.

Mae'r system bresennol yn ychwanegu at yr amharu sy'n digwydd ar hyn o bryd wrth roi dedfrydau o garchar y gellid eu hosgoi i fenywod a'u teuluoedd. Mae'n creu rhwystrau ymarferol sylweddol i blant sy'n ymweld oherwydd cost teithio, diffyg trafnidiaeth, a chael oedolyn addas i fynd â nhw. Cyflwynwyd y Gwasanaeth Ymweld â Mam er mwyn chwalu'r rhwystrau hyn a chefnogi teuluoedd i gynnal perthynas gadarnhaol gyda mamau sydd wedi'u carcharu pan fo hyn er lles gorau'r plentyn. Mae'r gwasanaeth wedi'i gynllunio i gefnogi menywod Cymru a'u teuluoedd drwy drefnu ymweliadau, cynnig rhaglenni magu plant a pherthnasoedd i fenywod, cynnig cludiant i blant, a darparu 'gofal cofleidiol' i blant ar ôl eu hymweliad. Mae gwirfoddolwyr, sy'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o redeg y gwasanaeth, hefyd yn annog teuluoedd i ymgysylltu ag ysgolion i gefnogi lles plant.

Yn ystod y pandemig, cyflwynwyd 'ymweliadau Purple visits' o bell i sicrhau cyswllt parhaus o bell rhwng mamau yn y system cyfiawnder troseddol a'u plentyn/plant.

Mae rhagor o wybodaeth am Ymweld â Mam ar gael yma: Ymweld â Mam | Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal y Carchar

**Cymorth Iechyd Meddwl i'r rhai sydd yn y System Cyfiawnder Troseddol**

Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud drwy Gytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd Carchardai hefyd yn bwysig i iechyd meddwl a lles menywod a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru.

Mae dau o'r prif flaenoriaethau yn y Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd Carchardai yn canolbwyntio ar iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar fersiwn ddrafft newydd Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai yng Nghymru. Mae'r ddau yn cynnwys ffocws penodol ar drosglwyddo o'r carchar i'r gymuned (ac felly maent – er enghraifft – yn berthnasol i anghenion menywod sy'n dychwelyd i Gymru o garchardai yn Lloegr).

Mae datblygu'r Fframwaith a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun adferiad ar ôl y pandemig, a

chymorth ac adsefydlu parhaus i bobl yn y carchar ac yn y gymuned. Mae'r Fframwaith a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer y carchardai yn cyd-fynd â'r gwaith arall sy'n cael ei wneud – gan gynnwys cyllid newydd i fynd i'r afael â digartrefedd a darparu atebion tai effeithiol a chynaliadwy i'r rheini sydd fwyaf mewn perygl, a chamau parhaus i gefnogi'r rheini sydd ag anghenion cymhleth (gan gynnwys y rheini sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd). Maent hefyd yn cyd-fynd â'r egwyddorion a nodir yn y Glasbrint ar gyfer Troseddau Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder Menywod, yn ogystal â gwaith Straen Trawmatig Cymru a'u ffrwd waith ar gyfer y Carchar a Chyfiawnder Troseddol.

Mae Straen Trawmatig Cymru yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru (£1.2miliwn yn flynyddol) a'i nod yw gwella iechyd a lles pobl o bob oed sy'n byw yng Nghymru sydd mewn perygl o ddatblygu neu sydd ag anhwylder straen wedi trawma (PTSD) neu anhwylder straen wedi trawma cymhleth (CPTSD). Mae'r fenter yn ymwneud â phlant, pobl ifanc ac oedolion, ac mae'r holl randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o PTSD a CPTSD, yn cyd-berchen y fenter ac yn gyfrifol am gyd-lunio a chyd-gyflwyno gwaith y fenter. Mae gan Straen Trawmatig Cymru nifer o ffrydiau gwaith gwahanol – sy'n canolbwyntio ar ymosodiadau rhywiol, cyfiawnder troseddol, pobl sydd wedi'u gorfodi i fudo, cyfnod amenedigol, oedolion, pobl ifanc, ac asesu a chanlyniadau.

Mae'r ffrwd waith ar gyfer y carchar a chyfiawnder troseddol yn arwain y gwaith ar ddatblygu llwybr gofal trawma effeithiol ar gyfer pobl yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod nifer anghymesur o bobl yn y system cyfiawnder troseddol wedi profi trawma neu gam-drin yn ystod plentyndod. Fodd bynnag, gallant wynebu sawl rhwystr rhag cael gafael ar driniaethau effeithiol ar gyfer straen yn dilyn trawma. Mae'r ffrwd waith yn cynnwys pobl sy'n gweithio yn y carchardai yng Nghymru a'r ganolfan breswyl newydd i fenywod, yn ogystal â'r gwasanaeth prawf, gwasanaethau iechyd, y sector gwirfoddol ac iechyd y cyhoedd. Bydd y ffrwd waith yn cefnogi hyfforddiant staff rheng flaen mewn ymarfer sy'n canolbwyntio ar drawma, a bydd yn cefnogi pontio effeithiol yn ôl i wasanaethau cymunedol. Bydd y ffrwd waith hefyd yn datblygu cysylltiadau ymchwil i sicrhau bod y llwybr yn cael ei werthuso.

Mae byrddau iechyd hefyd yn darparu Cyswllt a Chefnogaeth Cyfiawnder Troseddol ar gyfer canfod ac asesu anghenion yn ymwneud ag anhwylder meddwl neu anabledd dysgu cyn gynted ag y bo modd yn y llwybr cyfiawnder troseddol.

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)**

Yng Nghymru, fel yng ngweddill y byd, mae gormod yn profi trais yn erbyn menywod a thrais ar sail rhywedd, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Rydym yn cydnabod ac yn deall y cymhlethdodau ychwanegol sy'n gysylltiedig â dioddef trais a cham-drin, megis bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol neu fod â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Gall y rhain roi mwy o bŵer a rheolaeth i'r sawl sy'n cam-drin a chynyddu'r risg i ddioddefwyr.

Drwy Brosiect y Glasbrint, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) i roi cymorth penodol i fenywod Cymru yn y

carchar sydd wedi profi cam-drin domestig. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyfran uchel o fenywod yn y carchar wedi profi cam-drin neu drais domestig a/neu rywiol yn y gorffennol. Mae gwaith mapio wedi nodi'r angen am gefnogaeth arbenigol i gynllunio diogelwch yn y maes hwn, i gynnig cefnogaeth ac arbenigedd, ac i gysylltu â'r gwaith o gynllunio llety ac adsefydlu ar gyfer menywod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i wella ansawdd gwasanaethau a chymorth i unigolion a theuluoedd y rheini sy'n dioddef trais a chamdriniaeth. Rydym yn gweithio gyda gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol i ddarparu cefnogaeth a llety diogel i bawb sydd ei angen.

Mae gwasanaethau arbenigol VAWDASV yn gweithio'n ddiflino i sicrhau nad yw'r un dioddefwr yn syrthio drwy'r bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau, ac yn enwedig y rheini sydd â risg uwch. Mae gwasanaethau VAWDASV yn mabwysiadu dull system gyfan o ddarparu cymorth, gwasanaethau arbenigol gan weithio mewn dull amlasiantaeth cydlynol; a defnyddio systemau presennol, gan osgoi bylchau neu ddyblygu, a darparu cymorth unigol drwy dargedu llu o anghenion. Rydym yn croesawu cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn y hirdymor rhwng gwasanaethau VAWDASV a gwasanaethau cyfiawnder troseddol; gweithio gyda'n gilydd i ddelio â chymhlethdodau'r trawma a brofir.

Mae canllawiau comisiynu VAWDASV Llywodraeth Cymru yn argymell comisiynu gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan anghenion. Mae hyn yn caniatáu hyblygrwydd o ran ariannu gwasanaethau ar draws y tirweddau amrywiol rydym yn byw ynddynt.

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau arbenigol i godi ymwybyddiaeth o'r materion anghydraddoldeb a diogelwch sy'n wynebu menywod a merched, ac i roi diwedd ar bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae ein Glasbrint newydd ar gyfer VAWDASV yn cynnwys is-grŵp sy'n rhoi sylw i brofiad plant a phobl ifanc a fydd yn datblygu ein dull gweithredu yn y maes hwn ymhellach.

**Agwedd Gwrth-hiliaeth tuag at Gyfiawnder Troseddol**

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a Chyfiawnder Troseddol

Cafodd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ei lansio ddydd Mawrth 7 Mehefin. Mae wedi'i seilio ar werthoedd Gwrth-hiliaeth, ac mae'n dangos y camau rydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â hiliaeth a rhoi terfyn ar wahaniaethu drwy ein polisïau a'n ffyrdd o weithio. Mae hyn yn rhoi diwedd ar wahaniaethu yn erbyn menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Mae'r Cynllun wedi cael ei greu ar y cyd â phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, gan ddefnyddio eu profiadau, a'i ddatblygu ar y cyd ag amrywiaeth eang o gymunedau a mudiadau ar draws pob rhan o Gymru ac ar sail tystiolaeth.

Mae'r Nodau a'r Camau Gweithredu yn y cynllun yn ymdrin â meysydd polisi ar draws y llywodraeth, gan gynnwys iechyd, diwylliant, cartrefi a lleoedd, cyflogadwyedd a sgiliau ac addysg. Rydym yn sefydlu trefniadau llywodraethu i

weithredu'r nodau a'r camau gweithredu yn y Cynllun, gan gynnwys Grŵp Atebolrwydd Allanol a fydd yn cynghori, cefnogi, cyd-ddylunio gyda'r Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus ehangach, ynghyd â'u herio, i sicrhau bod y Cynllun a'r weledigaeth yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn amserol ar gyfer Cymru wrth-hiliol.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ARWAP) yn cynnwys pennod benodol ar Droseddu a Chyfiawnder. Mae'n amlinellu'r gwaith rydym yn ei wneud fel Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyflawni gwaith ar droseddau casineb, sefydlu'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethu ar Sail Hil, ac amlygu pwysigrwydd gwrth-hiliaeth pan fyddwn yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar faterion cyfiawnder. Mae hefyd yn cynnwys y gwaith sydd wedi'i amlinellu yn yr adran ar y Glasbrint i Fenywod uchod i gomisiynu ymchwil ar brofiadau menywod o gefndiroedd ethnig a hil amrywiol yn y system gyfiawnder.

Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru

Mae'r bennod ar y Cynllun hefyd yn tynnu sylw at waith sy'n cael ei wneud ar y cyd gan bartneriaid Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, gan gynnwys Plismona yng Nghymru, Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yng Nghymru, ar gynllun gwrth-hiliaeth penodol ar gyfer y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru.

Lansiwyd Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru ar 8 Medi, a bydd partneriaid Cyfiawnder Troseddol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) yn ei arwain a'i berchenogi. Mae'n cael ei ddatblygu gan dasglu dan arweiniad Emma Wools (Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, Heddlu De Cymru), Pam Kelly (Prif Gwnstabl Heddlu Gwent) a Chris Jennings (Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yng Nghymru). Mae'r Cynllun yn nodi saith ymrwymiad i:

Herio hiliaeth
Adeiladu gweithlu ethnig amrywiol
Cynnwys, gwrando a gweithredu
Bod yn dryloyw, yn atebol ac yn cydgysylltiedig
Addysgu'r gweithlu
Hyrwyddo tegwch
Canolbwyntio ar atal, ymyrraeth gynnar ac adsefydlu

Mae Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru wedi ymgysylltu â Chymdeithas yr Heddlu Du fel rhan o'u dull o gyd-gynhyrchu'r Cynllun a sicrhau ei fod yn seiliedig ar brofiad go iawn. Bydd y cynllun yn mynd i'r afael â gwahaniaethu sy'n greiddiol yn y system gyfiawnder, gan gynnwys y gwahaniaethu a wynebir gan fenywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

**Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid**

- Cafodd Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid Cymru ei gyhoeddi yn 2019, ac mae'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, gan ddefnyddio dull hawliau 'rhoi plant yn gyntaf'. Mae hyn yn golygu gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn hytrach na'r gwasanaeth, gan

ddiwallu anghenion unigol plant yn y system gyfiawnder neu blant sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r system. Mae'r Glasbrint yn cefnogi menywod a merched yng Nghymru fel rhan o'r garfan cyfiawnder ieuenctid ehangach.

- Mae'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei reoli a'i gyflwyno ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Plismona yng Nghymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan weithio mewn partneriaeth ag arweinwyr ledled Cymru. Mae ffrydiau gwaith y Glasbrint yn canolbwyntio ar atal, dargyfeirio cyn mynd i'r llys, y gymuned, y ddalfa ac adsefydlu. Rydym yn sicrhau bod dulliau ataliol sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn rhan greiddiol ar draws y meysydd hyn, gan helpu plant ledled Cymru i ffynnu.

- Mae'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid yn cyd-fynd â'r strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a bydd yn cael ei ddatblygu drwy'r ffrwd waith atal fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Atal Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a fydd yn sicrhau'r canlyniadau ataliol gorau posibl ar gyfer VAWDASV yn enwedig ymysg merched ifanc.

- Mae Rheoli Achosion Uwch (ECM) ar gael bellach i bob Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru ar gyfer plant sydd mewn cysylltiad gwirfoddol a statudol â Thimau Troseddau Ieuenctid. Mae'r gwaith o fapio darpariaeth sefyllfa'r timau hyn ledled Cymru wedi'i gwblhau i ganfod pa wasanaethau y mae gan y timau fynediad atynt yn eu hardal leol a lle mae'r bylchau. Mae cymorth wedi cael ei ddarparu i'r sector cyfiawnder ieuenctid gydag adnoddau, hyfforddiant a chymwysterau i ddarparu ymarfer sy'n seiliedig ar drawma.

- Mae rhagor o wybodaeth am y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu diweddaraf sy'n cynnig darlun cyflawn o'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu, ar gael yma: Cefnogi troseddwyr ifanc | GOV.WALES

**Cymorth iechyd meddwl i bobl ifanc**

- Mae gan fenywod a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru fynediad at wasanaethau iechyd meddwl prif ffrwd. Yn 2021/22, rhoddodd Llywodraeth Cymru £42 miliwn ychwanegol ar gyfer cymorth iechyd meddwl, ac mae ein *Rhaglen Lywodraethu* yn nodi'n glir y byddwn yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

- Iechyd meddwl yw'r maes sy'n dal i ddenu'r gwariant mwyaf gan y GIG yng Nghymru. Yn 2022/23, bydd y gyllideb Iechyd Meddwl sydd wedi'i chlustnodi sy'n cael ei darparu i Fyrddau Iechyd Lleol, yn fwy na £760 miliwn. Fel rhan o gyllideb Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2022, rydym wedi amlinellu adnoddau ychwanegol i gefnogi iechyd meddwl a llesiant gyda £50 miliwn yn 2022/23 sy'n codi i £90 miliwn yn 2024/25. Bydd y cyllid hwn yn parhau i gefnogi nifer o feysydd blaenoriaeth sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, gan gynnwys CAMHS, Gofal mewn Argyfwng ac iechyd meddwl cyfnod amenedigol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol i wella gwasanaethau iechyd meddwl i bob bwrdd iechyd i gefnogi gwelliannau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys

CAMHS. Nod y cyllid hwn yw cefnogi byrddau iechyd i adfer amseroedd aros a meithrin gallu cynaliadwy yn y dyfodol.

- Ym mis Mawrth 2021 cafodd y Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol ei gyhoeddi. Mae'n ganllawiau statudol ar gyfer ysgolion, darparwyr addysgol a phartneriaid i sicrhau bod anghenion llesiant pob disgybl yn cael eu cefnogi drwy ddull heb stigma beth bynnag fo'u hamgylchiadau.

- Mae'r Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl i Bobl Ifanc hefyd ar gael, ac mae'n cysylltu pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed â gwefannau, apiau, llinellau cymorth a mwy er mwyn meithrin gwytnwch.

- Mae cymorth emosiynol ac iechyd meddwl ar gael 24 awr y dydd hefyd, drwy ein llinell gymorth Llinell Wrando a Chymorth Cymunedol (CALL), sy'n darparu gwybodaeth a chyngor penodol am ofalu am les meddwl.

  Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod £50m ychwanegol yn cael ei ddarparu yn 2022-23 i gefnogi iechyd meddwl a lles. Bydd y buddsoddiad hwn yn codi i £90m yn 2024-25. Bydd y cyllid hwn yn parhau i gefnogi nifer o feysydd blaenoriaeth sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, gan gynnwys gwella cymorth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, gwasanaethau mewn argyfwng a'r tu allan i oriau, a chynyddu gwasanaethau seicolegol. Mae'r gwasanaethau ar gael i holl blant a phobl ifanc Cymru.

- Yn fwy penodol ac o ran pobl ifanc yn y System Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru, bydd G4S Health Services UK Ltd yn parhau i fod yn brif ddarparwr gofal iechyd ar gyfer Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc. Mae Gwasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed Cymru Gyfan (FACTS) yn darparu gwasanaeth 'o fewn cyrraedd' arbenigol ar gyfer iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS).

- Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn comisiynu FACTS ar ran y 7 bwrdd iechyd yng Nghymru. Ers mis Medi 2021, mae FACTS wedi dechrau cynnig gwasanaeth ledled Cymru i Dimau Troseddau Ieuenctid sy'n darparu cyswllt ac ymgynghori ar seicoleg a Rheoli Achosion Uwch (ECM).

**Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid**

Pwrpas y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yw sicrhau bod pobl ifanc rhwng 11 a 18 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio oddi wrth ddysgu, neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, yn cael eu hadnabod a'u cefnogi. Mae'r Fframwaith ar waith i gefnogi merched a bechgyn. Gall cael cefnogaeth gan y Fframwaith atal pobl ifanc rhag dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid neu sicrhau bod pobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i symud ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac osgoi bod yn ddigartref.

Mae Cryfhau'r Fframwaith yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, ac fel rhan o'r gwaith hwn, mae canllawiau sydd wedi'u diweddaru ar y Fframwaith i fod i gael eu cyhoeddi ar 22 Medi. Drwy gryfhau'r Fframwaith, rydym am sicrhau:

- Pan fydd pobl ifanc yn gorffen addysg oed ysgol, y bydd mwy ohonynt yn symud i gyrchfan sy'n addas iddynt, boed hynny'n addysg, cyflogaeth, hyfforddiant neu hunangyflogaeth (gan gynnwys manteisio ar gyfleoedd dan Warant i Bobl Ifanc Llywodraeth Cymru).
- Bod pobl ifanc yn cael eu hatal rhag bod yn ddigartref.
- Bod iechyd meddwl a lles emosiynol pobl ifanc yn gwella oherwydd eu bod yn teimlo eu bod yn gwneud rhywbeth sy'n ystyrlon iddynt, a'u bod yn teimlo eu bod ar y trywydd iawn.

**Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal**

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio yn Llywodraeth Cymru yn darparu ystod o grantiau i fudiadau'r trydydd sector sydd, drwy'r cyllid a ddarperir, yn cynnig cymorth i fenywod ifanc sydd efallai wedi cael profiad o'r system cyfiawnder troseddol neu sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Prosiect Ar Trac** – a ddarperir gan Gymorth i Ferched Cymru sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi profi neu fod yn dyst i gam-drin domestig, ac sy'n dangos anawsterau o ran eu perthynas â'u teulu a'u cyfoedion.

**Prosiect Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru (EYST)** – mae'r prosiect yn cefnogi Plant a Phobl Ifanc Du a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru ac mae'n darparu gwasanaeth cyfeirio i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymorth 'ychwanegol' neu 'amryfal'. Nod y gwasanaeth yw gwella canlyniadau lles y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio sydd ag anghenion gofal cymdeithasol, drwy wasanaeth cymorth sy'n ystyriol o hil, ffydd a diwylliant, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar hawliau.

**Prosiect Pobl Ifanc Platfform** – mae'r prosiect wedi'i leoli yng Nghastell-nedd, Port Talbot ac Abertawe, ac mae'n darparu rhaglen lles, cefnogaeth gan gyfoedion a chymorth un-i-un i bobl ifanc rhwng 13 ac 16 oed i oedi, anadlu a chysylltu, gan edrych ar beth mae iechyd meddwl a lles yn ei olygu i'r bobl ifanc ar y rhaglen.

**Eiriolaeth**

Mae MEIC yn wasanaeth gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig llinell gymorth sy'n gyfrinachol, dienw, dwyieithog ac am ddim i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru. Mae'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth defnyddiol, ac mae ar agor rhwng 8am a hanner nos, 7 diwrnod yr wythnos, drwy ffonio, neges destun a negeseua gwib.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i ariannu elfen "Cynnig Gweithredol" y Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol i Blant a Phobl Ifanc (NASA) i alluogi awdurdodau lleol i ddarparu dull cenedlaethol cyson o ddarparu cymorth eiriolaeth. Mae gan blant a phobl ifanc hawl i gael cynnig gweithredol o eiriolaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol (IPA) statudol pan fyddant yn derbyn gofal

neu'n dod yn destun ymholiadau amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.

Mae gwasanaeth ChildLine yn darparu gwasanaeth cyfrinachol 24 awr am ddim i bobl ifanc hyd at 19 oed yn y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfraniad o £90,000 yn 2022/23 i gefnogi'r NSPCC i gyflawni prosiect ChildLine, sy'n cefnogi agenda strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

**Protocol Cymru – lleihau nifer y plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol**

- Ers mis Ionawr 2021, mae gwaith wedi cael ei wneud i ddatblygu Protocol Cymru Gyfan i leihau y plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r rhan fwyaf o'r protocol drafft ar gyfer Cymru yn adeiladu ar brotocol presennol yr Adran Addysg/y Swyddfa Gartref/y Weinyddiaeth Gyfiawnder a gyhoeddwyd yn 2018.

- Cafodd Protocol Cymru ei gyhoeddi ar y cyd gan Weinidogion Cymru, Gweinidogion Llywodraeth y DU yn y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar 28 Mawrth 2022. Bydd y protocol yn helpu'r rheini sy'n dod i gysylltiad â phlant ac oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal wrth iddynt wneud eu gwaith, i rannu fframwaith cyffredin o egwyddorion a disgwyliadau sy'n seiliedig ar ddull sy'n mynd ati i hyrwyddo hawliau plant ac sy'n diogelu ac yn hyrwyddo eu lles.

- Cyhoeddodd Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Ddatganiad Ysgrifenedig i gefnogi cyhoeddi Protocol Cymru. Datganiad Ysgrifenedig: Protocol Cymru i leihau nifer y plant a'r oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu troseddoli | GOV.WALES

Dolen i'r protocol:- Lleihau troseddoli o ran plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal: protocol Cymru gyfan | GOV.WALES

**Y system Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau system addysg gynhwysol a theg. Fel rhan o'n diwygiadau addysg yng Nghymru, rydym yn newid y ffordd y caiff plant a phobl ifanc eu cefnogi. Daeth Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'r Cod ADY cysylltiedig ar gyfer Cymru i rym ym mis Medi 2021, ac mae'n cael ei rhoi ar waith yn raddol ar draws Cymru dros dair blynedd.

Mae Pennod 19 o God ADY Cymru yn nodi sut mae'r Ddeddf ADY yn berthnasol i blant a phobl ifanc:

a) sy'n destun gorchymyn cadw mewn llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru a Lloegr
b) sy'n destun gorchymyn cadw ac yn cael eu cadw mewn ysbyty dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn ystod achos troseddol neu fel rhan o ddedfryd.

Bydd y system ADY newydd yn helpu i sicrhau bod barn, dymuniadau a theimladau dysgwyr 0-25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu nodi'n gynnar ac yn cael eu rhoi wrth galon y broses er mwyn canfod a diwallu eu hanghenion. Yn gyffredinol, bydd gan bob plentyn a pherson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, beth bynnag fo difrifoldeb neu gymhlethdod eu hanabledd neu anhawster dysgu, hawl i gael cynllun cymorth statudol a elwir yn gynllun datblygu unigol. Bydd plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth o'r enw darpariaeth ddysgu ychwanegol a fydd yn cael ei nodi yn eu cynllun datblygu unigol. Mae Deddf ALN a'r Cod yn gwneud darpariaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth.

Plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth

P'un a oes gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth gynllun datblygu unigol neu beidio cyn iddo gael ei gadw'n gaeth, rhaid i awdurdod cartref y person hyrwyddo'r broses i gyflawni potensial dysgu'r person hwnnw yn ystod y cyfnod y caiff ei gadw'n gaeth ac ar ôl ei ryddhau.

Ar ôl cael ei gadw'n gaeth, bydd y plentyn neu'r person ifanc yn cael asesiad lle bydd ei anghenion addysg neu hyfforddiant yn cael eu cofnodi a'u datblygu'n gynllun addysg i gefnogi ei anghenion tra bydd yn cael ei gadw'n gaeth. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu llywio ymhellach drwy gyfarfodydd cynllunio dedfrydau, lle defnyddir dull amlasiantaeth sy'n cynnwys y person sy'n cael ei gadw'n gaeth, rhiant y plentyn pan fo'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn blentyn, a phartneriaid eraill fel y tîm troseddau ieuenctid, cynrychiolydd addysgol yr awdurdod lleol a gwasanaethau priodol eraill fel Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cynlluniau Datblygu Unigol

Os yw'r awdurdod cartref yng Nghymru yn penderfynu bod gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth anghenion dysgu ychwanegol ac y bydd angen cael cynllun datblygu unigol ar ei gyfer pan gaiff ei ryddhau, rhaid iddo baratoi cynllun datblygu unigol ar gyfer y person hwnnw (oni bai, yn achos person ifanc, nad yw'n cydsynio i'r cynllun gael ei baratoi).

Os oedd gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth gynllun datblygu unigol ar ei gyfer yn union cyn iddo ddechrau cael ei gadw, neu os yw awdurdod cartref wedi paratoi cynllun datblygu unigol yn ystod cyfnod ei gadw'n gaeth, rhaid i'r awdurdod cartref, os yng Nghymru, gadw'r cynllun datblygu unigol tra bo'r person yn cael ei gadw'n gaeth.

Os yw'r awdurdod cartref yn cadw cynllun datblygu unigol, rhaid iddo drefnu bod darpariaeth Ddysgu Ychwanegol briodol yn cael ei darparu i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth. Os yw'r cynllun datblygu unigol yn nodi y dylai'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol fod yn Gymraeg, rhaid i'r awdurdod cartref gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth briodol yn cael ei darparu yn Gymraeg.

**Trosolwg o *Girls in the Children and Young People's Secure Estate – Out of Sight***

(Cyhoeddwyd 5 Hydref 2021) Out of sight | Centre for Mental Health

Mae’r Ystad Ddiogel i Blant a Phobl Ifanc (CYPSE) yn darparu lleoliadau i blant rhwng 10 ac 17 oed, naill ai er lles person ifanc neu drwy’r system cyfiawnder ieuenctid. Comisiynwyd y Ganolfan Iechyd Meddwl i adolygu anghenion merched yn yr Ystad Ddiogel i Blant a Phobl Ifanc gan NHS England a NHS Improvement mewn partneriaeth â’r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa. Mae’r adolygiad yn seiliedig ar gyfweliadau gyda merched a oedd wedi bod yn yr Ystad Ddiogel i Blant a Phobl Ifanc, a gynhaliwyd gan Leaders Unlocked.

Mae *Out of Sight* yn dangos bod merched sydd yn yr Ystad Ddiogel i Blant a Phobl Ifanc yn grŵp agored iawn i niwed, gyda lefelau uchel o drawma ac iechyd meddwl gwael. Mae gormod o ferched o gymunedau hil amrywiol yn yr Ystad Ddiogel i Blant a Phobl Ifanc, ond efallai ei bod yn llai tebygol y bydd eu hanghenion yn cael eu cydnabod a’u diwallu. Mae digwyddiadau o hunan-niweidio difrifol yn fwy cyffredin ymysg merched na bechgyn yn yr Ystad Diogel i Blant a Phobl Ifanc, ac yn peri pryder penodol mewn lleoliadau un rhyw. Dyma’r rheswm mwyaf cyffredin dros ddefnyddio grym neu ataliaeth gyda merched, sy’n gallu bod yn drawmatig a golygu nad oes ymddiriedaeth yn y staff.

Mae merched sy’n profi lefelau mor uchel o drallod ac amryfal anghenion angen cymorth sy’n ystyriol o ryw person ac sy’n seiliedig ar drawma, ac mae’r dulliau hyn yn cael eu defnyddio mewn rhai lleoliadau. Ar yr un pryd, mae’r bylchau yn y gefnogaeth gymunedol i ferched agored i niwed yn cynyddu eu risg o gael eu lleoli yn yr Ystad Ddiogel i Blant a Phobl Ifanc. Mae gwir angen am ymyrraeth gynharach i gefnogi merched sy’n wynebu trawma a thrallod, ac i gael mwy o ddewisiadau eraill yn y gymuned yn lle’r Ystad Ddiogel i Blant a Phobl Ifanc.

Mae’r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o’r prif bryderon a materion i ferched yn yr ystad hon, ac mae’n gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau sydd eu hangen i gefnogi anghenion merched yn well.

Ar sail canfyddiadau’r adroddiad a’r ymgysylltu dilynol â rhanddeiliaid, mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa raglen waith i wella gwasanaethau i ferched. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu fforwm i ddwyn at ei gilydd ymarferwyr o bob sector o’r ystad ddiogel (cyfiawnder yn unig) sy’n gofalu am ferched i ystyried canfyddiadau’r adroddiad, rhannu, rhwydweithio a thrafod tueddiadau presennol, y gwersi a ddysgwyd, ac arferion gorau.

CentreforMentalHealth_OutOfSight_PDF_4

CentreforMentalHealth_OutOfSight_Litera

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar drais ar sail rhywedd ac anghenion menywod mudol.**

**Trosolwg**

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi cynnal ymchwiliad mewn perthynas â thrais ar sail rhywedd, sy'n cydnabod yr heriau ychwanegol y mae menywod mudol yn eu hwynebu. Cyhoeddwyd adroddiad y pwyllgor ar 26 Hydref 2022.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi holl ddioddefwyr a goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Mae hyn yn cynnwys dioddefwyr mudol a'r rhai heb hawl i arian cyhoeddus.  Mae'n rhaid inni sicrhau na fydd y grwpiau hyn yn wynebu unrhyw fylchau mewn strategaethau sydd â'r nod o gefnogi pobl sy'n cael eu cam-drin. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad pwysig hwn.

Mae ffoaduriaid, mudwyr a cheiswyr lloches sy'n fenywod sy'n ffoi rhag trais a chamdriniaeth yn wynebu heriau a chaledi penodol, sydd wedi gwaethygu drwy'r pandemig. Gall y grwpiau hyn yn aml wynebu lefelau uwch o drais, nid yn unig yn ystod eu teithiau mudo, ond hefyd am fod rhwystrau megis oedran, iaith, ynysu, statws mewnfudo ansicr a thlodi yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn profi trais a chamdriniaeth ar ôl iddynt gyrraedd Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad yn flaenorol i ddiogelu hawliau mudwyr a'r rhai yr effeithir arnynt gan VAWDASV ac mae wedi rhoi nifer o fframweithiau a darnau o ddeddfwriaeth ar waith i wneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud Cymru yn Genedl Noddfa: mae cynllun Cenedl Noddfa yn cynnwys ymrwymiadau trawslywodraethol clir i leihau'r anghydraddoldebau a wynebir gan geiswyr noddfa; mae hyn yn cynnwys cefnogi goroeswyr VAWDASV.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi ei Strategaeth Genedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ddiweddar. Mae'n amlinellu sut y byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, y casineb at fenywod a'r trais gan ddynion sy'n achosi ac yn arwain at drais a chamdriniaeth yn erbyn menywod. Mae'r strategaeth yn cydnabod nad yw effaith trais a chamdriniaeth o'r fath yn unffurf, sy'n effeithio ar bobl wahanol mewn ffyrdd gwahanol. Felly, mae deall yr effeithiau ar gydraddoldeb ar sail groestoriadol yn hanfodol er mwyn inni fynd i'r afael â'r broblem i bawb yng Nghymru.

Er bod cynnydd wedi cael ei wneud, mae angen cymryd camau gweithredu ychwanegol i ddiwallu anghenion y rhai Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, meithrin gallu cyrff cyhoeddus i gefnogi dioddefwyr trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd sydd wedi mudo dan orfod, a mynd i'r afael â'r ynysigrwydd a brofir gan fenywod sy'n fudwyr, yn ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor ac wedi nodi sut y gellir ystyried neu fabwysiadu mesurau ychwanegol, lle y bo'n briodol. Mae'r rhain yn cynnwys dull trawslywodraethol o sicrhau gwell canlyniadau i ddioddefwyr mudol trais ar sail rhywedd.

**Crynodeb o'r ymatebion i argymhellion yr adroddiad**

<table>
<tr><th>Argymhelliad</th><th>Ymateb</th></tr>
<tr><td>Argymhelliad 1</td><td>Derbyn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dylai Llywodraeth Cymru nodi’r ffordd y mae’n bwriadu mynd i’r afael â’r problemau sy’n cael eu hamlygu ynghylch iaith a darparu cyfieithu ar y pryd ar gyfer menywod mudol. Rhaid i hyn gynnwys nodi’r camau y bydd yn eu cymryd i atal asiantaethau statudol rhag defnyddio aelodau o’r teulu a/neu Bawso fel cyfieithwyr, heblaw mewn achosion brys neu argyfyngus. I gefnogi asiantaethau i wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried creu cyfeiriadur o gyfieithwyr ar y pryd cydnabyddedig hefyd.</td></tr>
<tr><td>Argymhelliad 2</td><td>Derbyn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â goroeswyr trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd o gymunedau mudol, a rhanddeiliaid eraill fel awdurdodau lleol, wrth ddatblygu strategaeth gymunedol ar godi ymwybyddiaeth ac atal, a all ffurfio canllawiau ar gyfer cyrff statudol.</td></tr>
<tr><td>Argymhelliad 3</td><td>Derbyn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa argyfwng y gall darparwyr gwasanaethau gael mynediad ati i gefnogi menywod mudol sy’n ddioddefwyr neu wedi goroesi Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd a Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, gan ddefnyddio strategaeth ‘Ending Destitution Together’ Llywodraeth yr Alban fel enghraifft. Disgwyliwn y caiff y gwaith hwn ei gyflawni yn y chwe mis nesaf, gyda bwriad i sefydlu cronfa erbyn mis Gorffennaf 2023.</td></tr>
<tr><td>Argymhelliad 4</td><td>Derbyn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi diweddariadau blynyddol ar ei gwaith o ran pobl Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, gan gynnwys gwaith y grŵp llywio Heb Hawl i Arian Cyhoeddus; cynnydd o ran opsiynau sy’n cael eu hystyried ar gyfer cefnogi menywod mudol Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, a thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU.</td></tr>
<tr><td>Argymhelliad 5</td><td>Derbyn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o weithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i weld pa effaith y mae wedi’i chael ar fenywod mudol Heb Hawl i Arian Cyhoeddus a’u plant. Dylid cynnal yr adolygiad o fewn y chwe mis nesaf a dylai edrych yn ofalus ar ffyrdd o sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith yn gyson ledled Cymru.</td></tr>
<tr><td>Argymhelliad 6</td><td>Derbyn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dylai’r adolygiad gynnwys gwerthusiad o’r canllawiau a ddarperir i awdurdodau lleol ar weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a’u rôl o ran cefnogi menywod mudol a’u plant Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu’r sefyllfa gyfreithiol yn llawn. Dylai’r gwerthusiad hwn hefyd ystyried opsiynau ar gyfer cyflwyno canllawiau diwygiedig yn effeithiol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu deall yn gyson ledled Cymru.</td></tr>
<tr><td>Argymhelliad 7</td><td>Derbyn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae’n bwriadu gweithio gyda Llywodraeth y DU i ymateb i bryderon ynghylch darpariaeth cyngor cyfreithiol o ran statws mewnfudo i fenywod mudol yng Nghymru.</td></tr>
<tr><td>Argymhelliad 8</td><td>Derbyn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall sicrhau y gellir cael mynediad at</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| gyngor cyfreithiol o ansawdd da, drwy weithio gyda rhanddeiliaid i edrych ar enghreifftiau o arfer da, gan gynnwys JustRight Scotland, ac adrodd ar ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor hwn erbyn mis Gorffennaf 2023. | |
| **Argymhelliad 9** | **Derbyn** |
| Dylai Llywodraeth Cymru nodi canllawiau ar gyfer hyfforddiant ar faterion penodol sy'n ymwneud â menywod mudol y gellir eu hymgorffori mewn hyfforddiant rheolaidd ledled Cymru, i wella dealltwriaeth ac i ddileu unrhyw ymddygiad gwahaniaethol posibl a ddangosir gan wasanaethau rheng flaen. Dylid cyhoeddi'r canllawiau hyn erbyn mis Gorffennaf 2023. | |
| **Argymhelliad 10** | **Derbyn yn rhannol** |
| Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r data newydd sydd ar gael drwy'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd i sefydlu llinellau sylfaen i lywio'r gwaith o fonitro a thargedu cyngor a gwasanaethau yn y dyfodol. Dylid cyflawni'r gwaith hwn o fewn y chwe mis nesaf. | |
| **Argymhelliad 11** | **Derbyn** |
| Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y mae'n bwriadu sicrhau, pan fydd yn casglu data am fenywod mudol, bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n digwydd gyda'u data, a sut y bydd eu data yn llywio'r gwaith o wneud penderfyniadau yn y dyfodol. | |
| Argymhelliad 12 | **Derbyn** |
| Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Heddlu ac awdurdodau lleol, gymryd camau drwy ganllawiau i fynd i'r afael â phryderon ynghylch y berthynas rhwng rhannu data a pharodrwydd goroeswyr i geisio cymorth. Dylid rhannu'r canllawiau hyn yn eang â sefydliadau arbenigol, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd ehangach a dylent fod ar gael mewn ieithoedd gwahanol. | |
| **Argymhelliad 13** | **Derbyn mewn egwyddor** |
| Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mur gwarchod sy'n cyfyngu ar rannu data rhwng asiantaethau ar y rhai sy'n ceisio cymorth o ran Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd. | |
| **Argymhelliad 14** | **Derbyn** |
| Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru fel aelod o'i Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol. | |
| **Argymhelliad 15** | **Derbyn** |
| Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio ei Strategaeth ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2022-26 i gynnwys adran sy'n ymdrin yn benodol ag anghenion menywod mudol a phlant, a'r rhai sy'n destun yr amod Heb Hawl i Arian Cyhoeddus. | |

**Nodir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:**

## Argymhelliad 1:

***Mae'r Pwyllgor yn argymell:***

*Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r ffordd y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r problemau sy'n cael eu hamlygu ynghylch iaith a darparu cyfieithu ar y pryd ar gyfer menywod mudol. Rhaid i hyn gynnwys nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i atal asiantaethau statudol rhag defnyddio aelodau o'r teulu a/neu Bawso fel cyfieithwyr, heblaw mewn achosion brys neu argyfyngus. I gefnogi asiantaethau i wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried creu cyfeiriadur o gyfieithwyr ar y pryd cydnabyddedig hefyd.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn deall y rhwystrau y mae menywod mudol yn eu hwynebu i gael gafael ar wasanaethau heb ddefnyddio cyfieithydd a sut y gall hyn wneud iddynt deimlo'n betrus ynglŷn â defnyddio gwasanaethau, yn enwedig i'r rhai sydd â statws mudo ansicr. Cyflwynwyd adroddiad ar argaeledd a digonolrwydd gwasanaethau cyfieithu ar y pryd mewn ieithoedd tramor i Lywodraeth Cymru yn ddiweddar fel rhan o Brosiect Integreiddio Mudwyr Cymru.  Byddwn yn ystyried argymhellion a chanfyddiadau'r adroddiad ochr yn ochr â'r argymhelliad hwn a gwaith ein Fframwaith ar Integreiddio Mudwyr. Bydd gwaith yn y dyfodol yn ystyried sut y gellir dileu'r rhwystrau i fynediad, gan weithio gyda sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau yn y trydydd sector i roi mynediad er mwyn i fenywod mudol esbonio eu hamgylchiadau. Byddwn hefyd yn ystyried ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau mynediad, a allai gael eu hymgorffori yn ein gwaith cyfathrebu ar Brosiect Integreiddio Mudwyr Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

## Argymhelliad 2:

***Mae'r Pwyllgor yn argymell:***

*Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â goroeswyr trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd o gymunedau mudol, a rhanddeiliaid eraill fel awdurdodau lleol, wrth ddatblygu strategaeth gymunedol ar godi ymwybyddiaeth ac atal, a all ffurfio canllawiau ar gyfer cyrff statudol.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn amlinellu chwe amcan ar gyfer 2022-26. Mae strwythur glasbrint yn cael ei greu, sy'n nodi trefniadau llywodraethu a rennir, gyda ffrydiau gwaith a fydd yn cyflwyno adroddiadau ar waith a chamau gweithredu allweddol. Bydd yn hanfodol gwrando ar brofiadau goroeswyr, ac mae Panel Craffu a Chynnwys Lleisiau Goroeswyr yn cael ei sefydlu, a fydd yn cynnwys pobl sydd â

phrofiad bywyd, gan gynnwys o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Bydd y panel yn rhychwantu'r holl ffrydiau gwaith ac yn gweithredu fel seinfwrdd ar gyfer cyngor polisi sydd wedi cael ei gyfeirio ato i'w ystyried. Bydd y Panel Craffu a Chynnwys Lleisiau Goroeswyr hefyd yn cael cyfle i ddatblygu cyngor polisi ar gynnwys defnyddwyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac ymgysylltu.

Drwy ein hymgyrchoedd Byw Heb Ofn, byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o bob agwedd ar VAWDASV. Mae'r ymgyrchoedd hyn yn rhoi cyngor ymarferol i'r rhai a all fod yn cael eu cam-drin ac yn tynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i alluogi ffrindiau, teulu a'r gymuned ehangach i adnabod achosion o gam-drin a chymryd camau gweithredu diogel. Yn hanesyddol, mae ein hymgyrchoedd Byw Heb Ofn yn dangos bod gan ddioddefwyr a chyflawnwyr nodweddion amrywiol. Gallant uniaethu â bod yn wrywaidd, yn fenywaidd neu'n anneuaidd, yn anabl neu ddim yn anabl, yn ifanc neu'n hen, yn wyn neu'n ddu neu'n unrhyw leiafrif ethnig arall, neu o'n cymuned LHDTC+. Byddwch yn gweld bod y grwpiau hyn yn cael eu cynrychioli yn y deunyddiau sy'n cefnogi ein hymgyrchoedd ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ac ar ein gwefan. Yn y flwyddyn sydd i ddod, bydd ein hymgyrchoedd cenedlaethol yn parhau i ddangos mwy o enghreifftiau o gam-drin domestig a thrais rhywiol a brofir gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a'r rhai sydd ag anghenion amrywiol ac mewn lleoliadau pellach fel y gweithle ac ar-lein.

**Goblygiadau ariannol** – Dim goblygiadau ariannol ychwanegol gan fod y gwaith yn mynd rhagddo'n unol â'r cynlluniau gwaith presennol

## Argymhelliad 3:

***Mae'r Pwyllgor yn argymell:***

*Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa argyfwng y gall darparwyr gwasanaethau gael mynediad ati i gefnogi menywod mudol sy'n ddioddefwyr neu wedi goroesi Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd a Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, gan ddefnyddio strategaeth 'Ending Destitution Together' Llywodraeth yr Alban fel enghraifft. Disgwyliwn y caiff y gwaith hwn ei gyflawni yn y chwe mis nesaf, gyda bwriad i sefydlu cronfa erbyn mis Gorffennaf 2023.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae swyddogion wrthi'n cwmpasu opsiynau ar gyfer cronfa a fyddai'n anelu at gefnogi dioddefwyr mudol VAWDASV heb hawl i arian cyhoeddus. Mae hyn yn unol â'n Cenedl Noddfa a'n dull gweithredu fel y'i nodwyd yn ein Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfleoedd eraill i roi cyllid yn unol ag anghenion poblogaeth Cymru, gan ystyried unrhyw benderfyniadau arfaethedig ynglŷn â dyfodol Cynllun Cymorth i Ddioddefwyr Mudol Llywodraeth y DU.

**Goblygiadau Ariannol** – Mae swyddogion wrthi'n cwmpasu goblygiadau ariannol unrhyw gynllun o'r fath.

## Argymhelliad 4

***Mae'r Pwyllgor yn argymell:***

*Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi diweddariadau blynyddol ar ei gwaith o ran pobl Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, gan gynnwys gwaith y grŵp llywio Heb Hawl i Arian Cyhoeddus; cynnydd o ran opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer cefnogi menywod mudol Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, a thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae gofyniad statudol ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiad blynyddol o dan Adran 12 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y gwaith a wneir drwy gydol y flwyddyn yn unol â'r amcanion a nodwyd yn y strategaeth ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae hyn yn cynnwys datblygu polisïau ac ymgysylltu mewn perthynas â dioddefwyr mudol VAWDASV, gan gynnwys y rhai heb hawl i arian cyhoeddus.

Bydd y materion hyn yn parhau i gael eu cynnwys ym mhob adroddiad yn y dyfodol, a bwriedir i'r adroddiad ar gyfer 2021-2022 gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2022.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Mae'r adroddiad blynyddol eisoes yn cael ei gyhoeddi fel rhan o gynllun gwaith y tîm VAWDASV.

## Argymhelliad 5

***Mae'r Pwyllgor yn argymell:***

*Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o weithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i weld pa effaith y mae wedi'i chael ar fenywod mudol Heb Hawl i Arian Cyhoeddus a'u plant. Dylid cynnal yr adolygiad o fewn y chwe mis nesaf a dylai edrych yn ofalus ar ffyrdd o sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith yn gyson ledled Cymru*.

**Ymateb: Derbyn**

Fel y cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol yn ei thystiolaeth lafar, nid oes unrhyw faterion wedi cael eu codi gyda'r Byrddau Diogelu Cenedlaethol na Rhanbarthol ynglŷn â phryderon gan fenywod mudol yn ymwneud â rhyngweithio â gwasanaethau cymdeithasol neu eu defnyddio na phryderon bod eu plant yn wynebu risg o gael eu symud ymaith. Serch hynny, mae swyddogion eisoes wedi ymgysylltu eto â'r Byrddau Diogelu i rannu canfyddiadau'r Pwyllgor a sicrhau tystiolaeth ychwanegol o unrhyw brofiadau neu heriau yn eu hardaloedd. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn helpu holl bartneriaid y Byrddau Diogelu i fyfyrio ar oblygiadau'r ymarfer casglu tystiolaeth a'u hystyried a rhoi sicrwydd iddynt hwy eu

hunain ynglŷn â'r cyfrifoldebau unigol ac ar y cyd y maent yn eu rhannu i ymateb mewn ffordd effeithiol a chynhwysfawr i unrhyw un sy'n cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu sy'n wynebu risg o hynny.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

## Argymhelliad 6

***Mae'r Pwyllgor yn argymell:***

*Dylai'r adolygiad gynnwys gwerthusiad o'r canllawiau a ddarperir i awdurdodau lleol ar weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'u rôl o ran cefnogi menywod mudol a'u plant Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol yn llawn. Dylai'r gwerthusiad hwn hefyd ystyried opsiynau ar gyfer cyflwyno canllawiau diwygiedig yn effeithiol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu deall yn gyson ledled Cymru.*

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y cyngor a roddir fel rhan o'r gwaith ar y rhai heb hawl i arian cyhoeddus yn cael ei ddiweddaru a'i adolygu'n rheolaidd. Gwnaethom ymrwymo i gynnal ymarfer gwerthuso chwe mis ar ôl ei ddyddiad cyhoeddi cyntaf, sef ym mis Rhagfyr 2022.

Caiff tystiolaeth a chanlyniadau'r ymarfer gwerthuso hwnnw a'r un sydd i'w gynnal mewn ymateb i Argymhelliad 5 eu defnyddio fel rhan o'r broses o lywio unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r Canllawiau ar Heb Hawl i Arian Cyhoeddus.

Mae hyfforddiant ar Hawliau Mudwyr wedi cael ei gyflwyno i staff rheng flaen awdurdodau lleol a'r trydydd sector, a fydd, ar ôl ei werthuso, hefyd yn ychwanegu at y wybodaeth sydd ar gael i'w defnyddio.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

## Argymhelliad 7

***Mae'r Pwyllgor yn argymell:***

*Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu gweithio gyda Llywodraeth y DU i ymateb i bryderon ynghylch darpariaeth cyngor cyfreithiol o ran statws mewnfudo i fenywod mudol yng Nghymru.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod Cymru yn Genedl Noddfa, gan adeiladu ar ein hanes hir o gefnogi mudwyr o bob cwr o'r byd er mwyn cael budd o'u sgiliau a'u diwylliant a gwella cymdeithas Cymru.

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am loches a mudo, yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu bod rhai o'r ffactorau allweddol i atal canlyniadau niweidiol, megis prosesau gwneud penderfyniadau amserol a da o benderfynu ar achosion lloches a

darparu cymorth cyfreithiol, y tu hwnt i'n rheolaeth. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i dynnu sylw at y materion allweddol sy'n effeithio ar allu mudwyr yng Nghymru i gael cyngor cyfreithiol, a mynd i'r afael â nhw lle y bo modd.

Mae ein cynllun Cenedl Noddfa yn nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i sicrhau y darperir gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth hygyrch o safon dda er mwyn galluogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches i arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i adolygu canfyddiadau'r adroddiad a gyflwynwyd fel rhan o Brosiect Integreiddio Mudwyr Cymru sy'n ystyried digonolrwydd ac argaeledd cyngor cyfreithiol ar fewnfudo i fudwyr dan orfod yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

## Argymhelliad 8

***Mae'r Pwyllgor yn argymell:***

*Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall sicrhau y gellir cael mynediad at gyngor cyfreithiol o ansawdd da, drwy weithio gyda rhanddeiliaid i edrych ar enghreifftiau o arfer da, gan gynnwys JustRight Scotland, ac adrodd ar ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor hwn erbyn mis Gorffennaf 2023*.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ceisio sicrhau bod Fframwaith Integreiddio Mudwyr Cymru yn ystyried sut y darperir cyngor cyfreithiol i ddioddefwyr mudol trais ar sail rhywedd. Drwy weithredu'n drawslywodraethol rydym hefyd yn datblygu proses o sicrhau bod dioddefwyr mudol wedi'u cynnwys o dan y trefniadau adrodd perthnasol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried canfyddiadau'r ymchwil i ddigonolrwydd ac argaeledd cyngor cyfreithiol i fudwyr dan orfod fel rhan o Brosiect Integreiddio Mudwyr Cymru. Bydd mynediad at gyngor cyfreithiol yn rhan o'r fframwaith a dangosyddion integreiddio. Byddwn yn ystyried sut y gallwn fynd i'r afael â'r bylchau daearyddol, yn ystyried sut y gellir meithrin gallu ac yn gweithio gyda grwpiau cymorth i greu adnoddau llythrennedd cyfreithiol i fudwyr a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector cymorth. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi mudwyr er mwyn ystyried sut y gellir rhoi mynediad a gwybodaeth ynglŷn â chyngor cyfreithiol ac yn ystyried modelau arferion gorau.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

## Argymhelliad 9

***Mae'r Pwyllgor yn argymell:***

*Dylai Llywodraeth Cymru nodi canllawiau ar gyfer hyfforddiant ar faterion penodol sy'n ymwneud â menywod mudol y gellir eu hymgorffori mewn hyfforddiant rheolaidd ledled Cymru, i wella dealltwriaeth ac i ddileu unrhyw ymddygiad gwahaniaethol posibl a ddangosir gan wasanaethau rheng flaen. Dylid cyhoeddi'r canllawiau hyn erbyn mis Gorffennaf 2023.*

**Ymateb: Derbyn**

Un o'r dulliau allweddol o roi Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ar waith yw'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae'r rhai sy'n profi VAWDASV yn cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus am lawer o resymau megis tai, gofal iechyd ac addysg. Mae'n rhaid i'r gwasanaethau hyn ddarparu llwybrau atgyfeirio i roi cymorth i ddioddefwyr. Mae'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn cynnig hyfforddiant cymesur i atgyfnerthu'r ymateb a roddir ledled Cymru i'r rhai sy'n profi'r problemau hyn. Mae'n nodi disgwyliadau uchelgeisiol a chlir ar gyfer safonau hyfforddi, canlyniadau a chynnwys ar VAWDASV. Mae cyfrifoldeb ar bob lefel o staff o fewn grwpiau 1-6 a nodwyd o dan y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol i ymgymryd â'r hyfforddiant. Byddwn yn cynnal adolygiad o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn 2023 a gallwn ymrwymo i sicrhau y caiff materion sy'n ymwneud â menywod mudol eu hystyried yn ystod y broses hon.

Er mwyn cydnabod bod achosion o VAWDASV wedi bod yn fwy cymhleth a bod risgiau wedi cynyddu o ganlyniad i ynysigrwydd yn ystod y pandemig, comisiynwyd hyfforddiant arbenigol ychwanegol yn ystod y cyfnod adrodd hwn i staff awdurdodau perthnasol a'r rhai nad ydynt yn berthnasol  sy'n dod i gysylltiad â dioddefwyr a chyflawnwyr yn eu rolau o ddydd i ddydd. Roedd yr hyfforddiant ychwanegol hwn yn cwmpasu gweithio gyda dioddefwyr cam-drin ar sail anrhydedd; dioddefwyr gwryw; ac adnabod cyflawnwyr VAWDASV a gweithio gyda nhw. Drwy gynnig yr hyfforddiant arbenigol ychwanegol hwn i staff awdurdodau nad ydynt yn berthnasol mae hyn hefyd wedi arwain at sefyllfa lle mae amrywiaeth ehangach o weithwyr proffesiynol yn gallu adnabod VAWDASV ac ymateb iddo.

Mae gweld yr unigolyn a'i anghenion o flaen ei statws mewnfudo yn agwedd sylfaenol ar ddull y Genedl Noddfa. Mae'n hollbwysig bod swyddogion awdurdodau lleol yn ceisio nodi'r hyn y gallant ei wneud i helpu rhywun mewn angen, hyd yn oed os nad yw dulliau mwy cyffredin o gymorth ar gael am nad oes hawl i arian cyhoeddus.

Rydym yn nodi rhai argymhellion yn y Canllawiau ar Heb Hawl i Arian Cyhoeddus. Un ohonynt oedd bod awdurdodau lleol yn ymgorffori'r cysyniad hwn ym mhrosesau cynefino a hyfforddi eu staff.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

## Argymhelliad 10

***Mae'r Pwyllgor yn argymell:***

*Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio’r data newydd sydd ar gael drwy’r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd i sefydlu llinellau sylfaen i lywio’r gwaith o fonitro a thargedu cyngor a gwasanaethau yn y dyfodol. Dylid cyflawni’r gwaith hwn o fewn y chwe mis nesaf.*

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at ddefnyddio data cadarn i lywio'r broses o ddatblygu polisïau yn y dyfodol, yn unol ag arferion gorau ar gyfer llunio polisïau ar sail tystiolaeth. Er nad yw'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn dal unrhyw ddata newydd ar hyn o bryd, mae swyddogion polisi VAWDASV yn awyddus i weithio'n agos gyda dadansoddwyr Llywodraeth Cymru i ddeall sut y gall y data a ddelir eisoes gael eu datblygu a'u rhoi ar waith er mwyn gwella'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael ym mhob rhan o'r Llywodraeth, yn enwedig o ran VAWDASV.

Byddai angen ymarfer mapio er mwyn canfod pa ddata y mae gwasanaethau yn eu dal. Yna, efallai y bydd modd i Lywodraeth Cymru gael data o'r fath, ond dim ond os gellir rhoi cytundebau rhannu data ar waith. Byddai angen datblygu cytundebau rhannu data lle y delir data eisoes, a fydd yn cymryd amser i'w datblygu a'u rhoi ar waith er mwyn gwarantu bod yr holl ystyriaethau cyfreithiol a moesol yn cael eu hystyried. Mae hyn yn arbennig o heriol am nad oes gofyniad deddfwriaethol sy'n mynnu bod data penodol yn cael eu rhannu â Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith hwn yn debygol o gymryd mwy o amser na'r cyfnod o chwe mis a argymhellir.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

## Argymhelliad 11

***Mae'r Pwyllgor yn argymell:***

*Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y mae’n bwriadu sicrhau, pan fydd yn casglu data am fenywod mudol, bod ganddynt ddealltwriaeth glir o’r hyn sy’n digwydd gyda’u data, a sut y bydd eu data yn llywio’r gwaith o wneud penderfyniadau yn y dyfodol.*

**Ymateb: Derbyn**

Bydd dadansoddwyr a swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag amrywiaeth o grwpiau rhanddeiliaid i ennyn ymddiriedaeth a chynnwys pobl drwy gydol y broses casglu data a'r broses gwneud penderfyniadau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y data a gesglir gan y gwasanaethau a ariennir ganddi yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) ac yn sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn rhoi hysbysiadau preifatrwydd i bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau er mwyn iddynt ddeall sut y caiff eu data personol a'u data categori arbennig eu defnyddio. Fel rhan o GDPR y DU, yn achos data a reolir gan Lywodraeth Cymru, mae'n rhaid rhoi Hysbysiadau Preifatrwydd sy'n cwmpasu'r hyn sy'n digwydd i ddata unigolyn a sut y bydd ei ddata yn llywio penderfyniadau yn y dyfodol. Wrth roi Hysbysiadau Preifatrwydd i fenywod mudol o

fewn ein gwasanaethau a'n prosesau tystiolaeth, bydd swyddogion yn sicrhau bod unrhyw Hysbysiadau Preifatrwydd gan Lywodraeth Cymru mewn iaith briodol er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

## Argymhelliad 12

***Mae'r Pwyllgor yn argymell:***

*Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Heddlu ac awdurdodau lleol, gymryd camau drwy ganllawiau i fynd i'r afael â phryderon ynghylch y berthynas rhwng rhannu data a pharodrwydd goroeswyr i geisio cymorth. Dylid rhannu'r canllawiau hyn yn eang â sefydliadau arbenigol, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd ehangach a dylent fod ar gael mewn ieithoedd gwahanol.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae plismona a mewnfudo yn wasanaethau nad ydynt wedi'u datganoli yng Nghymru. O fewn y terfynau y mae hyn eu gosod, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid datganoledig ac annatganoledig i ddeall y materion sy'n codi ynglŷn â rhannu data a'r effaith ar ddioddefwyr mudol. Caiff y pwyntiau hyn eu hystyried fel rhan o'r gwaith cydweithredol sy'n mynd rhagddo i fynd i'r afael â VAWDASV yng Nghymru, gyda'r nod o gytuno ar gamau gweithredu priodol i roi mwy o hyder i oroeswyr geisio cymorth a'u rhoi ar waith.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

## Argymhelliad 13

***Mae'r Pwyllgor yn argymell:***

*Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mur gwarchod sy'n cyfyngu ar rannu data rhwng asiantaethau ar y rhai sy'n ceisio cymorth o ran Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd*.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rydym yn deall pwysigrwydd rhannu data weithiau rhwng adrannau'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau gwell canlyniadau i bobl. Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd, mewn rhai achosion sy'n ymwneud â VAWDASV, y gall rhannu data fod yn rhwystr sy'n atal pobl rhag cael gafael ar wasanaethau a chymorth. Gan fod llawer o'r sefydliadau sy'n dal data yn rhai annatganoledig, ni all Llywodraeth Cymru sefydlu mur gwarchod yn annibynnol. Fodd bynnag, gan adeiladu ar argymhelliad 12, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddod o hyd i gyfleoedd i wella'r prosesau presennol Llywodraethir pob asiantaeth, gan gynnwys heddluoedd, gan GDPR y DU, gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn barod iawn i godi ac ymdrin ag unrhyw achosion o dor diogelwch data.

Yn unol ar Argymhelliad 12, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid datganoledig ac annatganoledig i ddeall y materion sy'n codi ynglŷn â rhannu data a'r effaith ar ddioddefwyr mudol ac yn ystyried opsiynau ar gyfer mur gwarchod i gyfyngu ar rannu data rhwng asiantaethau.**Goblygiadau Ariannol** – Dim

## Argymhelliad 14

***Mae'r Pwyllgor yn argymell:***

*Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru fel aelod o'i Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol.*

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol a arweinir gan Weinidog yn arwain y trefniadau llywodraethu ar gyfer y glasbrint i gyflawni'r amcanion a nodwyd yn y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2022-26. Bydd swyddogion yn gwahodd Cyngor Ffoaduriaid Cymru i benodi cynrychiolydd i ymuno â'r bwrdd, er mwyn sicrhau anghenion menywod mudol yn cael eu hymgorffori ym mhob un o'r amcanion.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

## Argymhelliad 15

***Mae'r Pwyllgor yn argymell:***

*Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio ei Strategaeth ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2022-26 i gynnwys adran sy'n ymdrin yn benodol ag anghenion menywod mudol a phlant, a'r rhai sy'n destun yr amod Heb Hawl i Arian Cyhoeddus.*

**Ymateb: Derbyn**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol pum mlynedd ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar 24 Mai a ddatblygwyd ochr yn ochr â grŵp o sefydliadau partner allweddol, gan gynnwys yr heddlu, sectorau arbenigol a goroeswyr. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r amcanion cyffredinol y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni mewn partneriaeth â rhanddeiliaid er mwyn hyrwyddo diben Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Mae'r strategaeth eisoes yn mynd i'r afael â chefnogi dioddefwyr mudol VAWDASV, gan gynnwys y rhai heb hawl i arian cyhoeddus, fel un o'r blaenoriaethau allweddol y gellir ei fodloni o dan ein cynllun cyflawni, sy'n tynnu sylw at y ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn "*Parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a phartneriaid eraill i ddod o hyd i atebion priodol i ddiwallu anghenion goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol nad oes ganddynt unrhyw ffordd o gael gafael ar arian cyhoeddus oherwydd eu statws mewnfudo, yn unol â Chynllun*

*Gweithredu Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru*". Bydd hyn yn parhau i fod yn ffocws polisi allweddol dros y pedair blynedd nesaf a chaiff unrhyw newidiadau i'r Strategaeth eu hystyried fel rhan o Ystyriaethau Ffrydiau Gwaith y Strategaeth.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor
Cydraddoldeb a Chyfiawnder
Cymdeithasol

1 Rhagfyr 2022

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Hydref lle rydych yn gofyn am eglurhad ar bum mater, yn dilyn y drafodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y Rhaglen Tlodi Tanwydd a Chartrefi Clyd. Byddaf yn mynd i'r afael â phob mater yn ei dro.

<u>Pryd bydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i rannu canlyniad ei hadolygiad o gynllun cymorth tanwydd y gaeaf?</u>

Datblygwyd Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf (WFSS) 2021/22 yn dilyn cyllid canlyniadol o Gronfa Cymorth i Aelwydydd Llywodraeth y DU, a ategwyd gan gyllid Llywodraeth Cymru.

Rhagwelwyd y byddai'r cynllun yn daliad untro i fynd i'r afael â'r pwysau ariannol uniongyrchol, tymor byr, sy'n wynebu aelwydydd.

O ganlyniad, ni wnaed unrhyw drefniadau ffurfiol i werthuso'r cynllun. Fodd bynnag, roedd adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd o'r cynllun cyntaf wedi llywio datblygiad Cynllun Cymorth Tanwydd dilynol Llywodraeth Cymru 2022/23.

Cariodd Llywodraeth Cymru £180m o gyllid ymlaen o 2021-22, y tu allan i drefniadau arferol Cronfa Wrth Gefn Cymru, i ymateb i'r argyfwng costau byw yn 2022-23. Roedd cyfanswm y pecyn, ar gyfer 2021-22 a 2022-23, yn werth mwy na £330m ac yn cynnwys £150m ar gyfer y Cynllun Cymorth Costau Byw yn ogystal â £90m ar gyfer Cynllun Cymorth Tanwydd arall yn 2022-23.

Y prif wersi oedd:

1. Roedd ein meini prawf cymhwyso blaenorol yn golygu nad oedd llawer o aelwydydd incwm isel yn gymwys i gael cymorth. Yn dilyn adborth gan ein rhanddeiliaid rydym

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

wedi ymestyn y meini prawf cymhwystra i sicrhai bod y cymorth hanfodol hwn yn helpu mwy o aelwydydd agored i niwed.

Mae hyn yn cynnwys:

- Cymorth i garfan ehangach o aelwydydd ar fudd-daliadau;
- Mesurau i gefnogi aelwydydd gyda chostau a delir i gwmniau sy'n gweithredu a chynnal a chadw'r rhwydwaith ynni (*pass-through costs*);
- Cymorth i aelwydydd sy'n defnyddio tanwydd oddi ar y grid.

2. Mae cyfnod y taliad ar gyfer cynllun 2022/23 wedi'i ymestyn er mwyn caniatáu cyfle ehangach i unigolion hawlio a mwy o amser i awdurdodau lleol nodi preswylwyr cymwys ac i brosesu taliadau.

3. Yn dilyn adborth bod angen cyfathrebu'n well, drwy gydol mis Ionawr 2022, roeddem wedi gallu addasu ein hymgyrch 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi' i hyrwyddo ein cynllun cymorth tanwydd drwy hysbysebu ar y teledu, y radio a'r cyfryngau cymdeithasol a arweiniodd at fwy o bobl yn manteisio ar y cynllun. Mae'r llwybrau hybu hyn wedi cael eu hailadrodd a'u gwella fel rhan o'r gwaith o hyrwyddo cynllun 22/23 fel rhan o ymgyrch 'Yma i Helpu' Llywodraeth Cymru.

4. Er mwyn symleiddio'r broses i dderbynwyr, rydym wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i'w gwneud yn haws i bobl sy'n hysbys i awdurdodau lleol ac sy'n gymwys i gael y taliad i'w dderbyn heb orfod gwneud cais uniongyrchol.

<u>Awgrymwyd yn eich ymateb y bydd iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd yn cael ei gyhoeddi'r hydref hwn. Allech chi nodi'r dyddiad cyhoeddi tebygol? A allwch chi ymrwymo i ysgrifennu atom i dynnu sylw at y ffyrdd yr aethpwyd i'r afael â phwyntiau penodol y Pwyllgor pan fyddant ar gael?</u>

Rhoddodd fy Natganiad Llafar ar 7 Tachwedd wybodaeth bellach i aelodau am sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n deillio o ymateb i'r argyfwng hinsawdd ar draws pob cyfnod. Y bwriad yw parhau i ymrwymo i ddull ffabrig a gwaethaf yn gyntaf, a charbon isel, gan gyflwyno mesurau i wella effeithlonrwydd ynni aelwydydd incwm isel, lleiaf thermol effeithlon yng Nghymru.

Byddwn yn cyflawni hyn mewn dwy ran. Bydd Rhan 1 yn ein gweld yn caffael gwasanaeth newydd a arweinir gan alw, byddwn yn sicrhau parhad i gynorthwyo'r rhai lleiaf abl i dalu i ymateb i'r argyfwng costau byw. Bydd hyn hefyd yn sicrhau trosglwyddiad teg a fforddiadwy i gartrefi carbon isel.

Disgwylir caffael gwasanaeth o'r fath y flwyddyn nesaf ynghyd ag ymgysylltu cynnar â'r gadwyn gyflenwi a chyfranwyr posib eraill er mwyn sicrhau ymateb cryf ac amserol. Yr uchelgais yw gweithredu'r gwasanaeth er mwyn helpu aelwydydd y gaeaf nesaf. Bydd y gwasanaeth newydd yn ystyried gwersi a ddysgwyd o ganfyddiadau Pwyllgor y Senedd ar Adolygiad Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol 2022 ynghyd ag adolygiadau tebyg eraill. Bydd Adroddiad Adolygu ac Argymhellion, sy'n crynhoi'r llu o adolygiadau o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, yn cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd ochr yn ochr ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Raglen Cartrefi Clyd y dyfodol.

Yn ystod Rhan 2, byddwn yn datblygu dull datgarboneiddio drwy stociau tai cyfan, gan ddarparu dull hirdymor o ran effeithlonrwydd ynni, tlodi tanwydd a datgarboneiddio tai.

Bydd yn helpu i ddiwallu anghenion y cyllidebau carbon presennol ac yn y dyfodol, gan hefyd integreiddio ag amcanion tai ehangach. Mae disgwyl i'r rhaglen newydd gefnogi'r

sectorau cymdeithasol, perchen-feddiannaeth a rhentu preifat. Mae disgwyl iddi fod o fewn cyrraedd pawb, gan gynnwys y rhai yn y categori 'gallu talu', ond mae’n cynnwys pwyslais ar ariannu’r cartrefi gwaethaf yn gyntaf, gan gynnwys rhai mewn tlodi tanwydd. Bydd y dull gweithredu yn cael ei ddatblygu drwy'r gwersi a ddysgwyd o'r Rhaglen Cartrefi Clyd a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, a bydd yn cyd-fynd â dulliau eraill Llywodraeth Cymru megis Safon Ansawdd Tai Cymru a Chynllunio Ynni Ardal Leol.

Gall gwaith ddechrau ar unwaith drwy ddatblygu’r mecanweithiau presennol i greu dull integredig o drosglwyddo i'r rhaglen newydd, sy’n cyd-fynd â setliad y gyllideb nesaf.

Byddwn yn ysgrifennu i gadarnhau'r ffordd yr aethpwyd i’r afael â phwyntiau penodol y Pwyllgor pan fyddant ar gael.

Argymhelliad 18, a ydych chi'n gallu cadarnhau dyddiad cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net?

Mae disgwyl i’r Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net gael ei gyhoeddi yn gynnar yn y flwyddyn newydd.


Argymhelliad 22, a wnewch chi ein diweddaru ni ar gynigion Llywodraeth y DU i gynyddu'r Safonau Effeithlonrwydd Ynni Gofynnol i Dystysgrif Perfformiad Ynni C ar gyfer pob eiddo rhent erbyn 2028? Os na fydd Llywodraeth y DU yn gweithredu, a fyddwch chi’n ymrwymo i weithredu safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol uwch yng Nghymru yn unig?

Bu Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar gynigion i gynyddu'r Safonau Effeithlonrwydd Ynni Gofynnol i Dystysgrif Perfformiad Ynni C ar gyfer pob eiddo rhent erbyn 2028 ddwy flynedd yn ôl, ac rydym yn dal i aros am ymateb. Cyn gynted ag y bydd Llywodraeth y DU wedi gwneud cyhoeddiad, byddwn yn rhoi diweddariad i'r pwyllgor. Mae'n bwysig cofio nad yw ynni wedi’i ddatganoli ac felly mae gosod Safonau o’r fath yn fater i Lywodraeth y DU.

Argymhelliad 21, a all Llywodraeth Cymru esbonio pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau yr eir i’r afael â’r heriau penodol a wynebir gan cymunedau gwledig yn ystod cam nesaf y rhaglen Cartrefi Clyd?

Mae’r rhaglen bresennol yn mynd i’r afael â’r heriau sy'n wynebu'r rhai sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru a byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r materion y mae deiliaid tai yn eu hwynebu mewn ardaloedd gwledig o fewn y rhaglen newydd.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

28 Hydref 2022

Annwyl Jane,

Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Dlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd – cais am ragor o wybodaeth

Yn dilyn y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor ar Dlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd ar 21 Medi, byddem yn ddiolchgar o gael eglurhad pellach ar y canlynol:

Pryd y bydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i rannu canlyniad ei hadolygiad o'r cynllun cymorth tanwydd gaeaf?

Roedd eich ymateb yn awgrymu y bydd yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn cael ei gyhoeddi yr hydref hwn. A fyddech cystal â nodi'r dyddiad cyhoeddi tebygol. A allwch ymrwymo i ysgrifennu atom i dynnu sylw at y ffyrdd yr aethpwyd i'r afael â phwyntiau penodol y Pwyllgor pan fyddant ar gael?

Argymhelliad 18, a allwch gadarnhau dyddiad cyhoeddi'r Cynllun Sgiliau Sero Net?

Argymhelliad 22, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am gynigion Llywodraeth y DU i gynyddu'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni i Dystysgrif Perfformiad Ynni C ar gyfer pob eiddo rhent erbyn 2028? Os na fydd Llywodraeth y DU yn gweithredu, a wnewch chi ymrwymo i roi safonau gofynnol uwch o ran effeithlonrwydd ynni ar waith yng Nghymru yn unig?

Argymhelliad 21, a all Llywodraeth Cymru egluro pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod heriau sy'n benodol i gymunedau gwledig yn cael sylw yng ngham nesaf y rhaglen Cartrefi Clyd?



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Diolch yn fawr am eich ymgysylltiad â gwaith y Pwyllgor hyd yma. Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb erbyn: 25 Tachwedd 2022.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

7 Rhagfyr 2022

Annwyl Gadeirydd,

Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i Benodiadau Cyhoeddus

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn cynnal ymchwiliad i benodiadau cyhoeddus. Yn ei ymgynghoriad ar graffu ar weinyddiaeth gyhoeddus yn hydref 2021, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth a argymhellodd gynnal ymchwiliad yn y maes hwn. Barnwyd bod y mater hwn yn un sydd heb gael sylw digonol ers i'r Senedd gael ei sefydlu.

Ceir manylion ein cylch gorchwyl cytunedig ar gyfer yr ymchwiliad yn Atodiad A. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gallai pryderon am y broses penodiadau cyhoeddus fynd y tu hwnt i'r cylch gorchwyl hwnnw. Gan hynny, byddem yn croesawu safbwyntiau a phrofiadau eich pwyllgorau ar y materion a restrir ac ar unrhyw faterion eraill sydd, yn eich barn chi, yn berthnasol i'n gwaith.

Rwy'n edrych ymlaen at glywed gennych ac yn gofyn yn garedig am i ymatebion gyrraedd erbyn dydd Gwener 27 Ionawr 2023.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Atodiad A

Mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r broses ar gyfer penodiadau cyhoeddus, gan gynnwys meysydd y gellid eu gwella i gynyddu amrywiaeth y penodiadau cyhoeddus a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae'r materion i'w hystyried yn cynnwys y canlynol:

- Rôl yr Uned Cyrff Cyhoeddus ac effeithiolrwydd ei pherthynas â byrddau cyrff cyhoeddus o ran sicrhau llywodraethu da a threfniadau penodi cyhoeddus effeithiol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gymorth parhaus i aelodau byrddau.
- Barn y cyrff corfforaethol hynny sy'n cael penodiadau cyhoeddus am y broses penodiadau cyhoeddus.
- Rôl Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.
- Beth yw'r prif rwystrau i gynyddu amrywiaeth ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru? Sut mae'r rhain yn amrywio yn ôl ffactorau, gan gynnwys yn ôl:
  - Oedran
  - Rhyw
  - Ethnigrwydd
  - Anabledd
- Pa mor effeithiol yw dulliau cyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer annog a chynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr?
- Ym mha ffordd y gellir gwella'r broses penodiadau cyhoeddus i gyflawni hyn?
- Sut y gall Llywodraeth Cymru greu proses penodiadau cyhoeddus fwy tryloyw ac agored?
- A oes enghreifftiau o arfer gorau mewn mannau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol y dylai Cymru ddysgu oddi wrthynt?



Senedd Cymru
Welsh Parliament